



Gwerthusiad o'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru 2008



Ymchwil

Dogfen ymchwil Rhif: 043/2009
Dyddiad cyhoeddi: Awst 2009

Gwerthusiad o'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru 2008

- Cynulleidfa** Cyrff sydd yn ymwneud ag addysg yng Nghymru, gan gynnwys Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Addysg Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol; Prifathrawon a Chyrff Llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; Llyfrgelloedd; Sefydliadau Addysg Uwch; Sefydliadau Addysg Bellach; Sgiliau Sylfaenol Cymru; CyMAL; Estyn; Cyngor Llyfrau Cymru; Bwrdd yr Iaith Gymraeg; Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion.
- Trosolwg** Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad gan Arad Consulting ar reolaeth y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru 2008. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflwyno argymhellion ynglŷn â sut y gallai gweithgareddau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn cael eu datblygu ymhellach i hyrwyddo darllen.
- Camau i'w cymryd** Dim - er gwybodaeth.
- Rhagor o wybodaeth** Debbie Tynen
Swyddog Ymchwil Hŷn
Tîm Ymchwil a Gwerthuso
Yr Is-adran Rheoli Gwybodaeth
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Ffynnon Las
The Orchards
Tŷ Glas Avenue
Llanisien
Caerdydd
CF14 5EZ
Ffôn: 029 2092 6088
E-bost: research2@wales.gsi.gov.uk
- Copiau ychwanegol** Gellir cael copiau ychwanegol drwy ysgrifennu at y cyfeiriad uchod neu gysylltu ar y ffôn neu'r cyfeiriad e-bost.
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
<http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/?skip=1&lang=cy>

CYNNWYS

CRYNODEB GWEITHREDOL	1
1. CYFLWYNIAD I'R GWERTHUSIAD	7
1.1 Bwriad yr adroddiad	7
1.2 Trosolwg o'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol 2008	7
1.3 Nod, cwmpas ac amcanion y gwerthusiad	8
1.4 Trosolwg o'r fethodoleg	9
1.5 Diolchiadau	10
2. RHEOLI A GWEINYDDU'R WYTHNOS DARLLEN GENEDLAETHOL YNG NGHYMRU	11
2.1 Cynllunio'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru	11
2.2 Cyllido'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol	12
2.3 Y trefniadau a wnaed gan Gyngor Llyfrau Cymru	14
2.4 Hyrwyddo	14
2.5 Ymgysylltu â phartneriaid	15
2.6 Datblygu partneriaethau newydd	17
2.7 Cysylltiadau strategol â mentrau eraill	18
2.8 Casgliadau cryno: effeithiolrwydd y trefniadau gweinyddu	19
3. WYTHNOS LLYFR YN ANRHEG	23
3.1 Disgrifiad o'r ymgyrch	23
3.2 Amcanion Wythnos Rhoi Llyfr yn Anrheg	23
3.3 Effaith Ymgyrch Wythnos Rhoi Llyfr yn Anrheg	25
3.4 Ffactorau a oedd yn allweddol i lwyddiant	26
3.5 Cynaliadwyedd ac argymhellion	27
4. CYMUNEDAU'N DARLLEN	29
4.1 Cyflwyniad i'r ymgyrch Cymunedau'n Darllen	29
4.2 Nodau ymgyrch Cymunedau'n Darllen	29
4.3 Y cymunedau llwyddiannus	29
4.4 Cymuned Ddarllen y Barri	29
4.5 Effaith a gafwyd yn y Barri	32
4.6 Cymuned Ddarllen Llanelli	32
4.7 Effaith a gafwyd yn Llanelli	33
4.8 Ffactorau a oedd yn allweddol i lwyddiant	34
4.9 Casgliadau: cynaliadwyedd a strategaeth	35
4.10 Ystyriaethau ar gyfer cyflwyno ymgyrch Cymunedau'n Darllen yn y dyfodol.....	36
5. CLYBIAU 08	39
5.1 Nodau, amcanion a disgrifiad o'r ymgyrch	39
5.2 Sefydlu clybiau	39

5.3	Trosolwg o'r canfyddiadau ansoddol	40
5.4	Clybiau 08: Gwersi a ddysgwyd	44
5.5	Effeithiau a ffactorau sy'n allweddol i lwyddiant	46
5.6	Cynnal 'Clybiau 08' – Crynodeb o'r opsiynau	47
5.7	Argymhellion	49

**6. GWEITHGAREDDAU'R FLWYDDYN DARLLEN O DAN ARWEINIAD
AWDURDODAU LLEOL 51**

6.1	Disgrifiad o weithgareddau a arweinir gan Awdurdodau Lleol	51
6.2	Digwyddiadau awdurdodau lleol	51
6.3	Nifer y bobl a gymerodd ran yn yr ymgyrch	52
6.4	Adborth gan y rheiny a fu'n cymryd rhan	53
6.5	Effeithiau a ffactorau a oedd yn allweddol i lwyddiant	54
6.6	Cyfraniad at ddigwyddiadau 2008	55
6.7	Plant sy'n Derbyn Gofal	55
6.8	Ychwanegedd a di-fuddiant	56

7. CASGLIADAU I GLOI A CHRYNODEB O ARGYMHELLION 57

7.1	Darparu nodau craidd y Flwyddyn Darllen	57
7.2	Effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd	58
7.3	Argymhellion	60

CRYNODEB GWEITHREDOL

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad o Flwyddyn Darllen Genedlaethol 2008, a gynhaliwyd gan gwmni ymgynghori Arad.

Trosolwg o Flwyddyn Darllen Genedlaethol 2008

2. Cafodd 2008 ei dynodi'n Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru a Lloegr. Rhoddwyd y cyfrifoldeb o weinyddu digwyddiadau yng Nghymru i Gyngor Llyfrau Cymru, a gafodd ei wahodd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu a chydgysylltu rhaglen o weithgareddau i hyrwyddo darllen yng Nghymru. Yn dilyn cyfnod o gynllunio, ac yn erbyn terfynau amser tynn iawn, trefnwyd rhaglen nodedig o weithgareddau gan y Cyngor Llyfrau yng Nghymru:

- **Wythnos Llyfr yn Anrheg** – cynllun i hyrwyddo darllen drwy annog pobl o bob oedran i roi llyfrau fel anrhegion.
- **Cymunedau'n Darllen** – gwahoddwyd awdurdodau lleol i wneud cais am gyllid o hyd at £20,000 er mwyn bod yn Gymunedau Darllen. Dewiswyd dwy gymuned, y Barri ym Mro Morgannwg a Llanelli yn Sir Gaerfyrddin.
- **Clybiau 08** – rhaglen gyda'r nod o sefydlu 50 o glybiau darllen ledled Cymru ar gyfer bechgyn yn eu harddegau. Cynhaliwyd y cyfarfodydd cyntaf ganol fis Medi 2008 gan bennu rhaglen o weithgareddau i bara hyd at fis Ionawr 2009.

3. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd cyllid o £2,000 i awdurdodau llyfrgell er mwyn darparu gweithgareddau ar lefel leol.

Rheoli a Gweinyddu Wythnos Darllen Genedlaethol Cymru

4. Roedd Cyngor Llyfrau Cymru mewn sefyllfa unigryw i fod yn gyfrifol am yr Wythnos Darllen yng Nghymru: roedd ei berthynas gref â gwasanaethau llyfrgell yn sicrhau ei fod yn gallu galw ar bartneriaid allweddol ar fyr rybudd a sicrhau cefnogaeth ar lefel leol, sef dwy elfen hollbwysig o ran gweithredu'r ymgyrchoedd yn llwyddiannus.

5. Roedd strategaeth y tîm canolog wrth weinyddu'r Flwyddyn Darllen yn cynnwys dirprwyo cyfrifoldeb dros gydgyssylltu a chynnal gweithgareddau i ystod eang o bartneriaid. Roedd hon yn ffordd synhwyrol ac effeithiol o weithredu, o ystyried yr adnoddau a oedd ar gael.

6. Bu i brosesau rheoli a gweinyddu Cyngor Llyfrau Cymru wrth gynnal yr Wythnos Darllen ychwanegu gwerth: darparwyd adnoddau staff ychwanegol i gefnogi'r broses o ddatblygu a rheoli'r ymgyrchoedd; a chyfrannodd yr amser a roddwyd gan sefydliadau partner ar lefel leol yn fawr at lwyddiant y flwyddyn.

7. Roedd yr ymgyrchoedd a gynlluniwyd fel rhan o'r Flwyddyn Darllen yn gweddu'n effeithiol â mentrau a strategaethau cenedlaethol ehangach.

Wythnos Llyfr yn Anrheg

8. Cafodd yr Wythnos Llyfr yn Anrheg ei hyrwyddo fel ymgyrch gynhwysol a fyddai'n apelio at bawb. Cynlluniwyd yr wythnos hon er mwyn lansio'r Flwyddyn Darllen a chreu momentwm mor gyflym â phosibl, i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus a sicrhau cefnogaeth sefydliadau partner. Mae'r dystiolaeth yn dangos ei bod wedi llwyddo i gyflawni'r amcanion hyn.

9. Roedd yr wythnos yn rhoi pwyslais ar yr hwyl a'r mwynhad sydd ei gael wrth ddarllen, a hynny drwy ddefnyddio lluniau o bersonoliaethau a ffigurau blaengar mewn bywyd cyhoeddus er mwyn creu cyhoeddusrwydd positif. Cafodd y plaser a'r boddhad sydd i'w gael o ddarllen hefyd ei bwysleisio mewn erthyglau papur newydd a oedd yn annog darllenwyr i roi llyfrau fel anrhegion yn ystod yr wythnos o ddathlu. Yn wir, roedd y cyhoeddusrwydd a grëwyd gan yr Wythnos arbennig hon (a gweithgareddau dilynol y Flwyddyn Darllen) yn nodedig: mewn adroddiad gan FBA, sef cwmni a gynhaliodd waith ymchwil ar ran Cyngor Llyfrau Cymru, nodwyd bod 1,221 o erthyglau wedi'u cyhoeddi yn y wasg, gan gyrraedd dros 8.5 miliwn o ddarllenwyr.

10. Roedd yr ymgyrch yn targedu darllenwyr newydd, gan gynnwys unigolion a oedd yn gadael yr ysgol, grwpiau sgiliau sylfaenol, grwpiau menywod a llawer mwy. Roedd yr ymgyrch yn hyrwyddo ymdeimlad o gynhwysiant, gan annog pawb i fynd ati i ddarllen. Roedd yr ymgyrch hefyd yn weledol gryf, a hynny o ganlyniad i'r deunyddiau a'r brandio a ddefnyddiwyd, a'r sêr enwog a gymerodd ran. O ganlyniad, crëwyd cyhoeddusrwydd a nifer o luniau yr oedd modd eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn.

Cymunedau'n Darllen

11. Roedd dulliau gweithredu'r cymunedau llwyddiannus, sef y Barri a Llanelli, yn wahanol iawn; ond fe aeth y ddwy ati i geisio manteisio ar rwydweithiau lleol, a chynnwys sefydliadau partner. Roedd y ddwy hefyd yn canolbwyntio yn gynnar iawn yn ystod yr ymgyrch ar gynaliadwyedd a defnyddio cyllid Cymunedau'n Darllen i greu cyswllt gadarn y gellir seilio gweithgareddau'r dyfodol arni.

12. Prif ffocws y dathliadau yn y Barri – sef y Dathliad Darllen Difyr – oedd penwythnos llawn gweithgareddau gan gynnwys darlleniadau (ar gyfer oedolion a phlant), areithiau gan awduron adnabyddus a sêr y byd teledu a radio a gweithgareddau eraill a oedd yn gysylltiedig â'r ddau lyfr a ddewiswyd yn ystod digwyddiad Dewis Llyfr Difyr y Barri. Trefnwyd amrywiaeth wych o ddigwyddiadau: dosbarthiadau ysgrifennu creadigol, prosiect celf o dan arweiniad myfyrwyr lleol, darllenwr preswyl a sioe ffasiwn.

13. Adroddodd y grŵp llywio bod cydlynu rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau ar gyfer y gymuned mewn cyn lleied o amser wedi bod yn her fawr iawn. Fodd bynnag, roedd y digwyddiad yn llwyddiant ysgubol: roedd nifer go fawr o bobl yn bresennol yn y digwyddiadau a lefelau boddhad yn uchel iawn.

14. Nod yr ymgyrch yn Llanelli oedd adeiladu ar yr hen draddodiad o sefydlu llyfrgelloedd fel canolfannau addysg, ac fe seiliodd y grŵp llywio yr ymgyrch ar lyfrau a oedd o ddiddordeb arbennig yn lleol. O ganlyniad, cafwyd cyfle i ymgysylltu'n helaeth â'r gymuned leol, a chafodd hyn ei adlewyrchu yn y ffaith bod nifer y llyfrau a fenthycwyd o lyfrgell Llanelli rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2008 wedi cynyddu o 15%.

15. Fel yn y Barri, cafodd ymgyrch Cymunedau'n Darllen Llanelli ymweliad go uchel ei broffil gan y Gweinidog dros Addysg. Yn ogystal, bu i'r sylw a gafwyd yn y wasg, yn lleol ac yn genedlaethol, helpu i gynnal momentwm yr ymgyrch a sicrhau bod ymwybyddiaeth o'r digwyddiadau yn lledaenu'n helaeth.

16. Bu i ymgyrch Cymunedau'n Darllen alluogi awdurdodau llyfrgell lleol i arbrofi â phrosiectau arloesol. Drwy wneud hyn, roedd yn eu galluogi i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd. Ystyriwyd y cymorth a gafwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru i fod yn hanfodol, a hynny am ei fod yn cynnig cyngor ac arweiniad ac yn darparu deunyddiau ar gyfer yr ymgyrch.

17. Gyda'i bwyslais ar lunio partneriaethau rhwng llyfrgelloedd lleol a sefydliadau a grwpiau o fewn y gymuned, mae model y Cymunedau Darllen yn cyd-fynd yn dda â'r weledigaeth a amlinellwyd yn strategaeth Llyfrgelloedd am Oes, sef cynnig gwasanaeth sy'n 'canolbwyntio ar y dinesydd, gan ymateb i'w anghenion newidiol a sicrhau bod llyfrgelloedd yn parhau i ffynnu ac i fod yn berthnasol i fywyd modern yng Nghymru.'

18. Roedd y prinder amser yn achosi trafferthion wrth gynllunio gweithgareddau. Pe bai model Cymunedau'n Darllen yn cael ei gyflwyno mewn trefi eraill ledled Cymru, cynigir bod angen cyfnod o 6 mis o leiaf i'w gynllunio'n effeithiol.

Clybiau 08

19. Llwyddodd yr ymgyrch hon i gyflawni'r targed o sefydlu 50 o glybiau darllen ledled Cymru, gyda dros 500 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan – y rhan fwyaf ohonynt yn fechgyn. Roedd y system lle'r oedd cydlynwyr cenedlaethol a rhanbarthol yn gweithio i recriwtio a sefydlu clybiau yn effeithiol.

20. Dangosodd ysgolion gryn dipyn o frwdfrydedd dros y fenter, yn arbennig yn yr ardaloedd difreintiedig hynny lle'r oedd yn gyfle i ennyn diddordeb bechgyn mewn darllen drwy ddefnyddio dulliau nad oeddent wedi gallu manteisio arnynt o'r blaen. Roedd hi'n glir bod y clybiau yn tanio dychymyg darllenwyr ifanc, gyda nifer o ysgolion yn nodi eu bod wedi synnu at ba mor bositif oedd agwedd y plant tuag at y clybiau.

21. Fodd bynnag, roedd llai o glybiau yn gysylltiedig â grwpiau ieuenctid nag oeddent wedi'i obeithio ar y cychwyn.

22. Mae tystiolaeth yn dangos bod y clybiau wedi llwyddo i ddenu darllenwyr newydd. Mewn rhai achosion, llwyddwyd i wneud hyn drwy dargedu bechgyn o grwpiau a dosbarthiadau o allu is. Roedd y detholiad o lyfrau a gafwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru yn helpu'r clybiau i apelio at gynulleidfaoedd newydd.

23. Adroddodd arweinwyr Clybiau 08 bod lefelau presenoldeb wedi bod yn dda; roedd bechgyn yn frwd dros fod yn rhan o rywbeth a oedd yn cael ei ystyried i fod yn fenter unigryw. Roedd y arhegion rhad ac am ddim a ddarparwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru yn boblogaidd dros ben a does dim dwywaith eu bod wedi cyfrannu at nifer y bobl a oedd yn bresennol yn y clybiau. Yn ogystal, roedd cyfleoedd i gyfarfod â ser y byd chwaraeon ac actorion ac i gymryd rhan mewn ymweliadau ychwanegol gyda'r ysgol yn rhan bwysig o sicrhau bod y bechgyn yn parhau i fynychu cyfarfodydd y clybiau yn selog.

24. Mynegodd arweinwyr y clybiau eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod bod y llyfrau wedi'u dewis ar eu rhan; ac yn bendant roeddent yn gwerthfawrogi cael y llyfrau ymlaen llaw, gan fod hynny'n arbed amser ac yn eu galluogi i gynllunio cyn dechrau'r gyfres.

25. Yn seiliedig ar yr wybodaeth fonitro a ddarparwyd gan arweinwyr y Clybiau, ymddengys y bydd y rhan fwyaf o Glybiau yn parhau gyda'u gweithgareddau mewn rhyw ffordd neu'i gilydd ar ôl y 6 sesiwn gwreiddiol. Adroddodd rhai bod y darllenwyr ifanc eu hunain yn awyddus i barhau â'r cyfarfodydd.

Gweithgareddau'r Flwyddyn Darllen o dan Arweiniad Awdurdodau Lleol

26. Cynhaliwyd amrywiaeth eang o ddigwyddiadau ledled Cymru o dan faner y Flwyddyn Darllen Genedlaethol, gyda chymorth cyllid ychwanegol a roddwyd i awdurdodau lleol gan Gyngor Llyfrau Cymru a CyMAL. Nododd nifer o lyfrgelloedd eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn mynychu digwyddiadau a chynnydd yn nifer y benthyccwyr cofrestredig, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Adroddodd awdurdodau lleol hefyd bod cynnydd yn nifer y plant a oedd yn cymryd rhan yn Her Darllen yr Haf, ac yn ei chwblhau.

27. Mae peth tystiolaeth yn dangos bod y cyllid ychwanegol wedi galluogi llyfrgelloedd i roi cynnig ar weithgareddau na fyddai wedi bod yn rhan o'u rhaglen arferol o weithgareddau ac, o'r herwydd, roedd y symiau weddol fach o arian yn eu galluogi i feddwl yn fwy creadigol.

28. Bu i'r cyllid ychwanegol helpu sefydliadau i weithio mewn partneriaeth ar lefel lleol. Fe aeth bron i hanner yr awdurdodau lleol ati i sefydlu grwpiau llywio ar gyfer y Flwyddyn Darllen a oedd, mewn rhai achosion, yn dwyn ynghyd rhestr amrywiol a nodedig o bartneriaid. Crewyd partneriaethau newydd hefyd a chryfhau partneriaethau eraill o ganlyniad i gynnal y gweithgareddau.

Casgliadau cryno ar fodloni amcanion craidd y Flwyddyn Darllen

29. Sicrhodd y tri phrosiect penodol hyn, ynghyd â'r gweithgareddau a gynhaliwyd ar lefel awdurdodau lleol, bod continwwm o weithgareddau ar gael i blant o'r blynyddoedd cynnar i Gyfnod Allweddol 3. Roedd llawer o'r gweithgareddau - yn arbennig y rhai hynny a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol a rhai o'r gweithgareddau a drefnwyd gan y Cymunedau Darllen - yn canolbwyntio ar gynnwys plant gyda'u rhieni. Fodd bynnag, ni ellir dweud bod gweithgareddau'r Flwyddyn Darllen wedi

canolbwyntio'n gyson ar dadau - sef un o'r amcanion craidd . Dylid rhoi canllawiau cliriach i awdurdodau lleol a phartneriaid eraill os yw hyn yn mynd i barhau i fod yn flaenoriaeth mewn rhaglenni pellach i hyrwyddo darllen.

30. O ganlyniad i'r modd y cafodd rhaglen y Clybiau 08 ei dylunio a'i gweithredu, cyflawnwyd amcan arall, sef hyrwyddo darllen ymysg bechgyn yn bennaf.

31. Y trydydd amcan oedd i feithrin partneriaethau newydd yn lleol: roedd y pwyslais a roddwyd ar weithgareddau lleol, wedi'u cynllunio a'u darparu gan y rhai sydd agosaf at y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, yn llwyddiannus, yn bennaf o ganlyniad i effeithiolrwydd y rhwydweithio lleol a'r gwerth ychwanegol a gafwyd drwy ddwyn ynghyd sgiliau ac arbenigedd o amrywiaeth o wahanol garfannau.

32. Roedd y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru yn rhaglen arloesol ac effeithiol o weithgareddau a lwyddodd i ysbrydoli degau o filoedd o bobl o bob oedran a chefnidir ledled Cymru yn ystod 2008. Cafodd y rhaglen gyllid o tua £458,000. Yn ôl amcangyfrifon Dr Hywel Roberts¹, bu i oddeutu 106,000 o unigolion fynychu neu gymryd rhan yn nigwyddiadau'r Flwyddyn Darllen, sy'n dangos bod yr ymgyrch wedi bod yn un gost-effeithiol iawn. Yr un mor bwysig o ran manteision hir dymor yr ymgyrch yw'r ffaith bod y Flwyddyn Darllen yng Nghymru wedi bod yn gyfle i roi cynlluniau pilot ar waith er mwyn hyrwyddo darllen, sy'n cyflwyno gwersi pwysig y gellir seilio gweithgareddau a rhaglenni'r dyfodol arnynt.

ARGYMHELLION

- i. Dylid parhau â'r Wythnos Llyfr yn Anrheg, neu ymgyrch debyg, bob blwyddyn fel rhan o Ddiwrnod y Llyfr.
- ii. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth a Chyngor Llyfrau Cymru, bennu graddfa a ffocws gweithgareddau hyrwyddo o fewn ymgyrch o'r fath a dylai bod cyllid ar gael i adlewyrchu hyn.
- iii. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu cyllid i gefnogi Cymunedau Darllen yng Nghymru, a hynny yn flynyddol. Fodd bynnag, byddai'n fanteisiol i unrhyw ymgyrch a gynhelir yn y dyfodol i gael amcanion strategol wedi'u diffinio'n glir, canllawiau ynghylch grwpiau targed a mwy o bwyslais ar yr angen i fesur effaith yr ymgyrch (gweler y pwyntiau a godir yn Adran 4.10).
- iv. Fel rhan o'r canllawiau hyn, dylai unrhyw ymgyrch Cymunedau Darllen a gynhelir yn y dyfodol ystyried mynd ati'n ffurfiol i lunio cysylltiadau gydag ysgolion a cholegau, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc o bob oedran yn cael cymryd rhan.
- v. Roedd y gefnogaeth graidd a ddarparwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru yn allweddol i lwyddiant y Cymunedau Darllen. Dylai cymorth tebyg fod ar gael i Gymunedau Darllen y dyfodol, gan ddarparu cyngor ar fynd ati i gynnal gweithgareddau a chynnal arfer da.

¹ Hywel Roberts (Ionawr 2009) Adroddiad Diwedd Blwyddyn

- vi. Dylai'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS), drwy weithio gyda Sgiliau Sylfaenol Cymru, a Chyngor Llyfrau Cymru, ystyried a oes angen llunio canllawiau i sicrhau bod y fenter yn cyd-fynd â strategaethau cenedlaethol ehangach i hyrwyddo darllen.
- vii. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ail-asesu faint o gyllid sydd ei angen ar gyfer pob Cymuned Ddarllen.
- viii. Yn gyntaf, dylid darparu cymorth parhaus i adeiladu ar y diddordeb mewn clybiau darllen i fechgyn a gafodd ei nodi mewn ysgolion nad oedd yn rhan o fenter y Clybiau 08, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd.
- ix. Mae angen cyngor a chymorth arbenigol er mwyn hwyluso'r broses o sefydlu clybiau darllen mewn lleoliadau anffurfiol nad ydynt yn yr ysgol, gan fanteisio ar arbenigedd sefydliadau sydd â phrofiad o weithio â grwpiau ieuencid yn y sector anstatudol.
- x. Dylid parhau i dargedu bechgyn sydd yn eu blynyddoedd olaf yn yr ysgol gynradd a'u blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol uwchradd.
- xi. Dylid annog clybiau i gysylltu gweithgareddau darllen â themâu chwaraeon, gan adeiladu ar y dulliau llwyddiannus a welwyd yn ystod Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2008.
- xii. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru, ystyried cryfderau a gwendidau gwahanol fodolau posibl o ran cefnogi Clybiau Darllen.
- xiii. Wrth barhau i gefnogi Clybiau Darllen, mae'n bwysig cynnal cydbwysedd ieithyddol, gyda chlybiau yn gweithredu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

1. CYFLWYNIAD I'R GWERTHUSIAD

1.1 Bwriad yr adroddiad

Comisiynwyd cwmni ymgynghori Arad ym mis Hydref 2008 i gynnal gwerthusiad o'r modd y cafodd Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2008, yn ogystal â'r gweithgareddau cysylltiedig, ei gweithredu yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad ac yn cynnwys casgliadau ac argymhellion a fydd yn helpu i lywio cyfeiriad a fformat y gweithgareddau a gyflwynir fel rhan o'r Flwyddyn Ddarllen yn y dyfodol.

1.2 Trosolwg o'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol 2008

Cafodd 2008 ei dynodi'n Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru a Lloegr. Rhoddwyd y cyfrifoldeb o weinyddu digwyddiadau yng Nghymru i Gyngor Llyfrau Cymru, a gafodd ei wahodd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu a chyd-gysylltu rhaglen o weithgareddau i hyrwyddo darllen yng Nghymru.

Nod y rhaglen weithgareddau oedd dwyn ynghyd awdurdodau lleol, llyfrgelloedd, ysgolion, colegau, cyhoeddwyr, siopau llyfrau, gweithleoedd, cymunedau a theuluoedd. Y bwriad oedd datblygu ymgyrch gyda ffocws cadarn ar weithgareddau lleol yn hytrach na rhai cenedlaethol. Yn arbennig, bwriad y rhaglen hon oedd:

- Targedu, fel grŵp blaenoriaeth, plant a phobl ifanc o'r blynyddoedd cynnar hyd at Gyfnod Allweddol 3 (14 mlwydd oed) a rhieni plant ifanc, gyda ffocws arbennig ar dadau.
- Rhoi pwyslais penodol ar hyrwyddo darllen i fechgyn.
- Canolbwyntio ar ddwyn ynghyd partneriaid ar lefel leol gan gynnwys grwpiau y blynyddoedd cynnar, ysgolion, llyfrgelloedd a grwpiau ieuenctid i ddatblygu a chynnal gweithgareddau i hyrwyddo darllen.

O dan delerau'r contract a luniwyd gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, roedd disgwyl i Gyngor Llyfrau Cymru:

- Ddarparu canolbwynt ar gyfer datblygu a rheoli'r rhaglen o weithgareddau yn 2008 er mwyn hyrwyddo darllen i bobl ifanc.
- Datblygu gwefan, cyhoeddusrwydd a brandio cysylltiedig.
- Nodi a chefnogi "Hyrwyddwr Darllen" i arwain y gwaith ar lefel genedlaethol ac i gefnogi ymgyrchoedd lleol.
- Datblygu cynigion a deunyddiau ar gyfer 3 ymgyrch yn ystod y flwyddyn i'w darparu drwy bartneriaid lleol.
- Sefydlu cysylltiadau a gweithio â phartneriaid allweddol ledled Cymru i ddatblygu a chyd-gysylltu rhaglen o waith.

- Cysylltu â chydgylltwyr y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yn Lloegr ac ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio deunyddiau a gynhyrchwyd yn Lloegr yng Nghymru - a hynny'n ddwyieithog.

Yn ystod y Flwyddyn Darllen Genedlaethol, datblygwyd tri phrosiect penodol gan Gyngor Llyfrau Cymru:

Wythnos Llyfr yn Anrheg (7 i 12 Gorffennaf 2008)

Prosiect i hyrwyddo darllen drwy annog pobl o bob oedran i roi llyfrau fel anrhegion. Cafodd yr ymgyrch ei lansio ar 19 Mehefin gydag ymgyrch cysylltiedig yn y wasg gan gynnwys negeseuon e-bost, hysbysebion radio a deunyddiau hyrwyddo mewn siopau, llyfrgelloedd a gwefan y Flwyddyn Darllen Genedlaethol.

Cymunedau'n Darllen

Cafodd pob awdurdod lleol yng Nghymru eu gwahodd, drwy Gymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru, i gyflwyno cais am un o ddau bot o arian gwerth £20,000 yr un, er mwyn bod yn un o Gymunedau Darllen y Flwyddyn Darllen. Dewiswyd y Barri ym Mro Morgannwg a Llanelli yn Sir Gaerfyrddin, gan fod eu rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau yn gweddu orau i'r model 'Dinas Darllen' (Reading City) a gafodd ei roi ar waith mor llwyddiannus yn yr UD a'r DU. Dros gyfnod yr haf, estynnwyd gwahoddiad i'r ddwy gymuned bleidleisio dros eu hoff lyfrau, a ddilynwyd ym mis Medi ac ym mis Hydref gyda rhaglen dreigl o weithgareddau yn seiliedig ar y llyfrau a ddewiswyd gan y cymunedau. Arweiniwyd y gwaith hwn yn y ddwy gymuned gan grŵp llywio.

Clybiau 08

Y gobaith oedd sefydlu 50 o glybiau darllen ledled Cymru ar gyfer bechgyn yn eu harddegau. Cafodd y cyfarfodydd cyntaf eu cynnal ganol mis Medi 2008 gyda rhaglen o weithgareddau a oedd yn para hyd at fis Ionawr 2009. Y bwriad yn wreiddiol oedd i'r clybiau gyfarfod mewn lleoliadau anffurfiol gan roi'r cyfle i aelodau gyfarfod â sêr enwog, ennill gwobrau a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r llyfrau yr oeddent yn eu darllen. Cafodd is-wefan Clybiau 08 ei sefydlu ar wefan y Flwyddyn Darllen Genedlaethol er mwyn darparu elfen ryngweithiol ar gyfer y gynulleidfa darged. Roedd hyn yn gyfle i'r clybiau greu proffiliau ar-lein ac ysgrifennu blogiau rheolaidd. Gofynnwyd i dîm cenedlaethol a rhanbarthol o gydlynwyr benodi arweinwyr potensial ar gyfer y clybiau, a fyddai, yn eu tro, yn ymgysylltu ag aelodau a chynnal cyfarfodydd a gweithgareddau.

1.3 Nod, cwmpas ac amcanion y gwerthusiad

Roedd gan y gwerthusiad hwn, fel yr amlinellwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ddau nod:

- i. Yn gyntaf, i asesu effeithiolrwydd y trefniadau a wnaed gan Gyngor Llyfrau Cymru i ddatblygu a chydgysylltu ymgyrch i hyrwyddo darllen drwy gyfrwng y Flwyddyn Darllen Genedlaethol. (*Adran 2 o'r adroddiad hwn*)
- ii. Yn ail, i werthuso'r effaith a gafodd elfennau penodol o'r Flwyddyn Darllen ac yn arbennig, y tair ymgyrch (Wythnos Llyfr yn Anrheg, Cymunedau'n Darllen a Chlybiau 08). (*Adrannau 3-6 o'r adroddiad*)

Mae'r nod cyntaf, uchod, yn cynnwys asesu a wnaeth Cyngor Llyfrau Cymru roi'r trefniadau a gytunwyd arnynt fel rhan o'u contract gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar waith; yn gysylltiedig â hyn, mae'r gwerthusiad wedi mynd ati i geisio asesu pa mor effeithiol oedd y trefniadau hyn. Mae nod pellach sy'n gysylltiedig â'r nod cyntaf wedi arwain at archwilio pa mor effeithiol oedd y partneriaethau a sefydlodd Cyngor Llyfrau Cymru wrth gydgyssylltu'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol. Yn olaf, cafodd y tîm gwerthuso'r dasg o ystyried i ba raddau y llwyddodd y Flwyddyn Darllen Genedlaethol i greu cysylltiadau ac i gyd-fynd â gwaith a oedd eisoes yn mynd rhagddo i hyrwyddo darllen, gan gynnwys Gŵyl Llyfrgelloedd Cymru ac ymgyrchoedd Darllenwch Filiwn o Eiriau a Stori Sydyn.

O fewn yr ail nod a amlinellir uchod, mae'r gwerthusiad wedi mynd ati i geisio asesu allbynnau a chanlyniadau pob un o'r tair ymgyrch, gan archwilio'r partneriaethau strategol a phartneriaethau darparu a feithrinwyd ac ystyried a lwyddwyd i gyrraedd y cynulleidfaoedd targed yn ystod y gweithgareddau.

Mae gwaith ymchwil ac adolygiadau eraill wedi canolbwyntio ar amrywiaeth o agweddau ar y Flwyddyn Darllen yng Nghymru, a chyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys gwaith a wnaed gan Dr Hywel Roberts, a luniodd Adroddiad Diwedd Blwyddyn mewnol ar ran Cyngor Llyfrau Cymru yn ddiweddar, ac adroddiad gan FBA yn asesu'r cyhoeddusrwydd a gafwyd yn y wasg a'r cyfryngau o ganlyniad i'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru. Mae'r adroddiadau hyn – a oedd yn canolbwyntio fwy ar allbynnau meintiol y Flwyddyn Darllen Genedlaethol na'r gwerthusiad hwn – wedi cynhyrchu data a chasgliadau diddorol, sy'n cael eu dyfynnu mewn rhannau amrywiol o'r adroddiad gwerthuso hwn.

1.4 Trosolwg o'r fethodoleg

Diben yr adroddiad gwerthuso hwn, a gynhaliwyd wrth i'r ymgyrch ddod i ben, yw darparu tystiolaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y modd y cafodd Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2008 ei rhoi ar waith yng Nghymru a'r effaith a gafodd yr ymgyrch honno.

Cafodd penderfyniadau ynghylch casglu data eu llywio gan yr angen, lle bo hynny'n bosibl, i ategu gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru ar gyfer ei Adroddiad Diwedd Blwyddyn, yn hytrach na'i ddyblygu. Roedd llawer o'r gwaith ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwnnw, a wnaed gan Dr Hywel Roberts, yn ymwneud â chasglu ffurflenni adborth yn ystod 2008 gan sefydliadau a oedd yn rhan o'r broses o ddarparu agweddau penodol ar y Flwyddyn Darllen. Rydym yn ddiolchgar i Dr Roberts ac i Gyngor Llyfrau Cymru am roi caniatâd i ni gyfeirio at y canfyddiadau hynny.

Yn dilyn y canllawiau a amlinellwyd yn y gwahoddiad i dendro gwreiddiol a'r cyfarfod dechrau prosiect dilynol, cafodd methodoleg y gwerthusiad hwn ei seilio ar gyfuniad o ymchwil ddesg a gwaith maes a oedd yn cynnwys y tasgau allweddol canlynol:

- Adolygiad desg o lythyrau contract, nodiadau cyfarfod a dogfennau eraill sy'n gysylltiedig â'r prosiect er mwyn amlinellu cynnydd ac arferion gweithio.
- Adolygiad desg o ffurflenni gwerthuso a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac arweinwyr Clybiau 08.
- Cyfweiliadau gyda staff Cyngor Llyfrau Cymru a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Cyfweiliadau gyda phartneriaid strategol (Sgiliau Sylfaenol Cymru, CyMAL, Estyn, Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru).
- Ymweliadau i gyfarfod â Grwpiau Llywio cymunedau darllen y Barri a Llanelli.
- Cyfweiliadau â chydgyssylltwyr cenedlaethol y Clybiau 08 a chydgyssylltwyr rhanbarthol y Clybiau 08 (x 5).
- Cyfweiliadau ag arweinwyr y Clybiau 08 a'r bechgyn a oedd yn aelodau ohonynt (x 5 clwb, gan gynnwys grwpiau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg).
- Cyfweiliadau â chynrychiolwyr awdurdodau lleol (x 5).
- Cyfweiliadau â gwerthwyr llyfrau (x 3); ac
- Ymweliadau â sampl o lyfrgelloedd lleol ledled Cymru (x 5).

Roedd Arad yn falch iawn bod yr Athro Viv Edwards, Cyfarwyddwr y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Llythrennedd ym Mhrifysgol Reading, wedi gallu bod yn rhan o'r tîm a chyfoethogi'r gwerthusiad gyda'i gwybodaeth a'i phrofiad.

1.5 Diolchiadau

Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd o'u hamser a'u hymdrech i'r gwerthusiad hwn o'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru. Rydym yn gwerthfawrogi'r holl gyfraniadau - y cyflwyniadau ysgrifenedig a'r cyfraniadau a wnaed yn ystod y cyfweiliadau â'r tîm gwerthuso. O ganlyniad, roedd gan y tîm gorff sylweddol o dystiolaeth a gwybodaeth a oedd yn sail i'r adroddiad hwn a'i ganfyddiadau.

2. RHEOLI A GWEINYDDU'R WYTHNOS DARLLEN GENEOLAETHOL YNG NGHYMURU

2.1 Cynllunio'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru

Ym mis Mawrth 2007, cyhoeddodd Alan Johnson, y Gweinidog dros Addysg yn Lloegr, bod 2008 yn mynd i fod yn Flwyddyn Darllen Genedlaethol. Ar fyr rybudd, sefydlwyd Grŵp Llywio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried ymateb yng Nghymru. Roedd y Grŵp Llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn, Sgiliau Sylfaenol Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru. Ym mis Mai 2007, penderfynwyd y dylai Cymru fanteisio ar y cyfle unigryw hwn: ystyriodd y Grŵp Llywio y byddai'r ffaith bod (o'i gyfieithu) *'yr holl gysylltiadau rhwng sefydliadau perthnasol eisoes yn eu lle'*².

Cytunwyd o'r cychwyn cyntaf nad oedd yn angenrheidiol bod cynigion yng Nghymru yn adlewyrchu digwyddiadau yn Lloegr. Penderfynodd y Grŵp Llywio yn hytrach y dylai'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru ganolbwyntio ar, a cheisio ategu, blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â hyrwyddo llythrennedd (o'i gyfieithu): *'Mae'r ymgyrch i wella safonau llythrennedd yng Nghymru wedi'i arwain dros nifer o flynyddoedd drwy gyfrwng partneriaethau rhwng sefydliadau sydd ag arbenigedd yn y meysydd perthnasol a byddai [y Flwyddyn Darllen Genedlaethol] yn gyfle i arddangos gwaith sydd eisoes wedi'i wneud a'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn ogystal â sbarduno gweithgareddau newydd.'*³ Cafodd ei nodi bod hyrwyddo darllen a llythrennedd mewn cyd-destun dwyieithog, yn ffactor pwysig tu ôl i'r penderfyniad i gynnal ymgyrch unigryw yng Nghymru. (Penderfynodd yr Alban i beidio â chynnal Blwyddyn Darllen).

Os oedd sicrhau cyfeiriad strategol y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yn un thema a drafodwyd yn ystod y cyfnod cynllunio, roedd parhau â'r momentwm a gynhaliwyd ers Blwyddyn Darllen Genedlaethol 1998-99 yn un arall. Un o brif gryfderau'r Flwyddyn Darllen gyntaf oedd bod Diwrnod y Llyfr wedi dod yn uchafbwynt sefydledig o fewn calendr yr ysgol ac roedd yn sail i nifer o bartneriaethau cadarn rhwng ysgolion, llyfrgelloedd a'r gymuned ehangach. Roedd y Flwyddyn Darllen yng Nghymru yn gyfle i adeiladu ar y llwyddiannau hyn ymhellach, creu partneriaethau newydd ac arbrofi â dulliau newydd o hyrwyddo darllen a llythrennedd i bobl o bob oedran ledled Cymru.

Yn ogystal, roedd y Grŵp Llywio a gynlluniodd y gweithgareddau yn 2008 yn cydnabod yr angen i ystyried un o'r canfyddiadau a wnaed yn Adroddiad Diwedd Blwyddyn - Blwyddyn Darllen Genedlaethol 1998-99 (o'i gyfieithu):

² Cofnod o gyfarfod a gynhaliwyd 21 Mai 2007 i ystyried yr ymateb yng Nghymru i'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol yn Lloegr

³ Cofnod o gyfarfod a gynhaliwyd 26 Gorffennaf 2007 i drafod trefniadau ar gyfer Blwyddyn Darllen Genedlaethol Cymru 2008

“Mae'r adroddiad yn dangos yn glir nad oes un llwybr clir yn arwain at lwyddiant; gall amrywiaeth o wahanol strategaethau, partneriaethau a dulliau gweithredu fod yr un mor llwyddiannus”⁴

Tra bo'r grŵp Llywio wedi gwneud pob ymdrech i fwrw ymlaen â'r broses gynllunio mor gyflym â phosibl, roedd Cyngor Llyfrau Cymru yn wynebu terfynau amser tynn iawn wrth fynd ati i ddylunio, cychwyn ar a darparu'r rhaglen o weithgareddau. (Yn wir, roedd y cyfyngiadau a wynebwyd o ganlyniad i bwysau amser yn thema a oedd yn ailadrodd eu hun drwy gydol y Flwyddyn Darllen.) Ni chafwyd rhaglen derfynol o weithgareddau tan ddiwedd 2007, yn dilyn cais Cyngor Llyfrau Cymru am gylid oddi wrth Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth y Cynulliad. Mynegodd pob unigolyn a oedd yn rhan o'r cyfnod cynllunio, a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bod angen llawer mwy o amser i baratoi ar gyfer y broses.

Cyn amlinellu'r trefniadau a roddwyd ar waith i gefnogi ymgyrchoedd y Flwyddyn Darllen, mae'n bwysig nodi bod llawer o'r diolch yn mynd i'r rhai a oedd yn rhan o'r broses gynllunio – sef yn bennaf staff Cyngor Llyfrau Cymru, a oedd yn wynebu risgiau sylweddol wrth gytuno i gynllunio ac arwain yr ymgyrchoedd, a hynny yn erbyn terfynau amser cyfyng iawn. Heb y partneriaethau effeithiol a ddatblygwyd dros amser rhwng y Cyngor Llyfrau ac awdurdodau lleol, a'r ffordd ddeinamig yr aethpwyd ati i greu'r rhan fwyaf o'r cysylltiadau hyn, mae'n debygol na fyddai'r amrywiaeth o weithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y Flwyddyn Darllen wedi bod yn bosibl.

2.2 Cyllido'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol

Dyrannodd Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth y Cynulliad grant o £341,000 dros ddwy flynedd, gan dderbyn cynnig pellach am gyllid ychwanegol gwerth £117,000 ym flwyddyn ariannol 2007-08, sef cyfanswm o £458,000. Yn Ffigur 1, isod, ceir dadansoddiad manwl o'r costau, sy'n dangos yr amrywiaeth o wahanol agweddau a oedd yn rhan o'r Flwyddyn Darllen, gan gynnwys costau gweinyddu, costau'r lansiad a'r gynhadledd i gloi, costau'r gwaith cysylltiadau cyhoeddus a'r gwasanaethau ymgynghori (cyfryngau), y gost o greu a chynnal gwefan y Flwyddyn Darllen a chostau cynnal y tair ymgyrch unigol.

Darparwyd cyllid ychwanegol gan isadran CyMAL o dan ei rhaglen Llyfrgelloedd am Oes i alluogi ac annog pob awdurdod lleol i gynnal gweithgareddau ychwanegol fel rhan o'r Flwyddyn Darllen, a chysylltu'r gweithgareddau hyn â menter marchnata 'Dyddiau Da'. Derbyniodd yr 20 awdurdod na chafodd eu dewis i fod yn un o'r ddwy Gymuned Ddarllen (h.y. pob awdurdod ar wahân i Sir Gaerfyrddin a Bro Morgannwg) gyllid o £2,000 yr un i gynnal gweithgareddau. Roedd £500 ohono'n deillio o gyllideb y Flwyddyn Darllen Genedlaethol (rhan o'r cyllid ychwanegol ar gyfer 2007-08) a chyfrannwyd y £1,500 arall (sef cyfanswm o £30,000) gan CyMAL. Sicrhaodd y cyllid ychwanegol hwn fod pob un o'r 22 awdurdod lleol yn elwa ar fanteision y Flwyddyn Darllen yng Nghymru. Roedd hyn hefyd yn sicrhau bod gweithgareddau a oedd ar

⁴ Blwyddyn Darllen Genedlaethol 1998-99 yng Nghymru: Adroddiad Diwedd Blwyddyn (Cynulliad Genedlaethol Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru)

waith fel rhan o'r Flwyddyn Darllen yn cyd-fynd â strategaethau a ffrydiau cyllido eraill.

Ffigur 1: Blwyddyn Darllen yng Nghymru, dadansoddiad o gostau 2007-08 a 2008-09

DADANSODDIAD O GOSTAU 2007-08		DADANSODDIAD O GOSTAU 2008-09	
	£		£
Ymgyrch Cymunedau'n Darllen (2 x £20,000 i'r cynigion llwyddiannus)	40,000	Costau gweinyddu (i gynnwys cyflogau'r Cydlynnydd Cenedlaethol, y Swyddog Gweinyddol, Cyflogau unigolion ar eu liwt eu hunain a chostau swyddfa)	70,000
Cost y lansiad swyddogol ym Mae Caerdydd (i gynnwys deunydd hyrwyddo i'w ddefnyddio yn ystod y flwyddyn)	5,000	3 Ymgyrch Genedlaethol Wythnos Llyfr yn Anrheg Cymunedau'n Darllen Grwpiau Darllen (Clybiau 08)	75,000
Ymgyrch Cysylltiadau Cyhoeddus – FBA	10,000	Cymorth Cysylltiadau Cyhoeddus	40,000
Gwasanaethau ymgynghori (cyfryngau)	15,000	Golygydd / Safonwr y wefan	15,000
Costau gweinyddu i gynnwys cyflogau a chostau swyddfa	10,000	Cynhadledd Diwedd Blwyddyn	20,000
Ymgyrch Rhoi Llyfr yn Anrheg i gynnwys gwaith dylunio a deunydd hyrwyddo	25,000	-	-
Ymgyrch Darllen drwy Chwaraeon Penodi cydlynnydd fel rhan o'r broses o sefydlu'r ymgyrch	10,000	-	-
Golygydd / safonwr gwefan	6,000	-	-
Cyfanswm	121,000		
CYLLID YCHWANEGOL AR GYFER 2007-08			
Cyflwyno llyfrau i awdurdodau lleol i ddathlu lansiad y Flwyddyn Darllen	30,000		
20 o awdurdodau'n cymryd rhan yn yr Ymgyrch Cymunedau'n Darllen	10,000		
Her Darllen yr Haf	2,000		
Gwefan y Flwyddyn Darllen	75,000		
Cyfanswm	117,000		
CYFANSWM AR GYFER 2007-08	238,000	CYFANSWM AR GYFER 2008-09	220,000

2.3 Y trefniadau a wnaed gan Gyngor Llyfrau Cymru

Fel y disgrifir uchod yn adran 1.2, cafodd gweithgareddau eu seilio ar dair menter unigol, sef:

- **Wythnos Llyfr yn Anrheg** – yn ystod yr ail wythnos ym mis Gorffennaf.
- **Ymgyrch Cymunedau'n Darllen** – gweithio gyda dwy gymuned ddewisedig.
- **Clybiau 08** – clybiau darllen yn canolbwyntio ar weithio gyda bechgyn a ystyrir i fod yn ddarllenwyr amharod.

Bydd y trefniadau gweinyddu a rheoli yn cael eu hystyried yn fanylach yn yr adrannau hynny sy'n ymdrin â'r mentrau penodol. Yn fewnol, penodwyd Delyth Humphreys gan Gyngor Llyfrau Cymru i gydgyssylltu'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru. Penodwyd Rhian Evans fel Swyddog Gweinyddol. Darparwyd cymorth ychwanegol gan uwch reolwyr y Cyngor Llyfrau.

Yn ogystal â rheoli'r tair menter a nodir uchod, rhoddwyd y tasgau canlynol i dîm rheoli'r Flwyddyn Darllen:

- Datblygu a chynnal y wefan a gafodd ei chreu ar gyfer y Flwyddyn Darllen yng Nghymru.
- Trefnu Cynhadledd Diwedd Blwyddyn ym mis Chwefror 2009 i rannu'r enghreifftiau o arfer da a ddatblygwyd yn ystod y Flwyddyn Darllen Genedlaethol.
- Sefydlu cysylltiadau ac arferion gwaith â phartneriaid allweddol ledled Cymru i ddatblygu a gweithredu rhaglen gytunedig o weithgareddau i hyrwyddo darllen; a
- Chynhyrchu adroddiad diwedd blwyddyn ar ganlyniadau'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol.

Rhoddwyd trefniadau ar waith i fonitro ac adolygu gweithgareddau'r ymgyrch – y rhai hynny a oedd yn rhan o'r mentrau a'r gweithgareddau ar lefel leol. Profodd y trefniadau hyn i fod yn rhai trwyadl iawn a chyflwynwyd cyfoeth o ddata meintiol ac ansoddol gan bartneriaid, a chyfeirir at lawer ohono yn y gwerthusiad hwn.

2.4 Hyrwyddo

Cyn gallu rhoi gweithgareddau'r Flwyddyn a'r tair menter ar waith, roedd angen cynllunio ymgyrch hyrwyddo er mwyn sicrhau bod y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru yn cael digon o gyhoeddusrwydd a'i bod yn cael ei dathlu'n eang. Mabwysiadodd Cyngor Llyfrau Cymru (a'i asiantaethau penodedig, FBA a Golley Slater) amrywiaeth o ddulliau i ddenu cyhoeddusrwydd am y Flwyddyn Darllen gan gynnwys hysbysebion radio, erthyglau golygyddol, a phosteri a thafenni hyrwyddo. Dysgwyd rhai gwersi yn gynnar iawn o ran marchnata, gan gynnwys y ffocws ar hysbysebion radio (yn hytrach na theledu) fel y dull mwyaf cost effeithiol.

Cafodd y gweithgareddau hyrwyddo eu monitro a'u cofnodi gan asiantaethau o dan gontract. Cafodd ei nodi yn adroddiad FBA ar y cyhoedduswydd y llwyddodd y Flwyddyn Darllen Genedlaethol i'w ddenu yn y wasg a'r cyfryngau, bod y canlynol wedi'u cynhyrchu:

- 121 o erthyglau ac ati yn y wasg gan gyrraedd dros 8.5 miliwn o ddarllenwyr yng Nghymru.
- Gwerth Hysbysebu Cyfatebol blynyddol o £155,768 a Gwerth Cysylltiadau Cyhoeddus o £467,304.
- 33 o gyfweiliadau teledu a radio yn cyrraedd dros 5 miliwn o bobl.
- 53 o erthyglau ar y rhyngwrdd⁵.

Gwahoddwyd rhai o enwogion Cymru i gymryd rhan mewn gweithgareddau hyrwyddo, yn arbennig ymgyrch Wythnos Llyfr yn Anrheg, a phrofodd hynny i fod yn effeithiol o ran hyrwyddo apêl ehangach darllen. Penodwyd Geraint Lewis i fod yn hyrwyddwr darllen ffurfiol ac fe gyfrannodd at ddigwyddiadau a lansiadau'r Flwyddyn Darllen. Fe weithiodd y cynllun hwn - sef defnyddio sêr enwog ynghyd â hyrwyddwr darllen - yn dda, gan lwyddo i hyrwyddo darllen i amrywiaeth o wahanol gynulleidfaedd ar sawl lefel. Roedd cyflwyniadau mwy ffurfiol yr hyrwyddwr darllen yn ategu apêl fwy poblogaidd y sêr.

Ar lefel leol, nododd y gwaith ymchwil mai ar lafar, yn y wasg leol a thrwy waith hyrwyddo gan staff y llyfrgell, y daeth aelodau o'r cyhoedd i wybod am y Flwyddyn Darllen a digwyddiadau cysylltiedig. Bu i'r Flwyddyn Darllen yng Nghymru elwa ar y sylw a gafodd y Flwyddyn Darllen yn Lloegr ar lefel y DU, yn ogystal â nifer o fentrau eraill a ariannwyd gan arian cyhoeddus, megis Llyfrgelloedd am Oes ac ymgyrchoedd Stori Sydyn a Darllenwch Filiwn o Eiriau'r Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol.

Roedd gwefan y prosiect yn rhan allweddol o'r ymgyrch hyrwyddo, a hynny o ran yr adnoddau a fuddsoddiwyd a chyrhaeddiad yr ymgyrch. Pan ddaeth yn glir yn ystod trafodaeth â'r Flwyddyn Darllen yn Lloegr ddechrau 2008 nad oedd modd cyfieithu eu gwefan embryonig, fe aeth Cyngor Llyfrau Cymru ati i gomisiynu gwefan penodol. Yn erbyn amserlen gyfyng iawn, cynhyrchwyd gwefan a oedd, nid yn unig yn cynnwys newyddion, digwyddiadau a chipolwg ar lyfrau, ond hefyd yn ymgorffori tair is-wefan ar gyfer pob un o'r prif ymgyrchoedd. O ganlyniad, roedd y wefan yn cyflwyno gwybodaeth gynhwysfawr am bob agwedd ar y rhaglen, gan gyfleu, drwy gyfrwng ei harddull liwgar a hygyrch, yr amrywiaeth o ddigwyddiadau llawn hwyl a'u perthnasedd i'r darllenwyr.

2.5 Ymgysylltu â phartneriaid

Cafodd ei nodi o'r cychwyn cyntaf bod meithrin partneriaethau effeithiol yn rhan hanfodol o lwyddiant y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru. O ystyried y pwysau a wynebai Cyngor Llyfrau Cymru o ran amser, fel y sefydliad a oedd yn gyfrifol am reoli a gweinyddu'r rhaglen o weithgareddau, roedd hi'n hanfodol eu bod yn ymgysylltu â'r partneriaid cywir yn gyflym. Yn bwysicach fyth, efallai, oedd ei bod

⁵ Adroddiad y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru 2008 (FBA ar ran Cyngor Llyfrau Cymru)

hi'n angenrheidiol eu bod yn manteisio ar beth oedd gan y partneriaid hyn i'w gynnig a bod systemau ar waith i wneud y defnydd gorau o'u hamser a'u sgiliau.

Gwelwyd gwahanol fathau o bartneriaethau yn cyfrannu at y Flwyddyn Darllen Genedlaethol. Yn gyntaf, cafodd partneriaeth strategol yn cynnwys sefydliadau allweddol (a drefnwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a ddisgrifir uchod yn 2.1) ei galw ynghyd i lywio'r broses gynllunio ac i ddatblygu egwyddorion ac amcanion craidd y gwahanol ymgyrchoedd yn ystod y flwyddyn. Llwyddodd Cyngor Llyfrau Cymru i feithrin a chynnal cysylltiadau strategol cadarn â Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy gydol y flwyddyn.


Roedd ail grŵp o bartneriaid yn rhan hanfodol o'r broses o weinyddu'r gweithgareddau. Roedd ganddynt rôl bwysig i'w chwarae o ran trefnu gweithgareddau ar lefel leol, hwyluso cyfraniad ysgolion, llyfrgelloedd, grwpiau cymunedol a phartneriaid cyflenwi. Tra bo tîm canolog yn gweithio yng Nghyngor Llyfrau Cymru, nid oedd y tîm mewn sefyllfa i gydgyssylltu'r holl weithgareddau ac fe fanteisiodd ar ei rwydweithiau i sicrhau bod cyfrifoldeb dros weinyddu gweithgareddau yn cael ei raeadr i unigolion a sefydliadau amrywiol. Mae'r dull a fabwysiadwyd i ymgysylltu ag awdurdodau lleol yn enghraifft: Cysylltodd Gwerfyl Pierce Jones, Cyfarwyddwr y Cyngor Llyfrau, â phob awdurdod i'w hysbysu am y Flwyddyn Darllen, gan amlinellu'r cyllid ychwanegol a oedd ar gael i gefnogi gweithgareddau a gofyn iddynt enwi prif gydlynnydd ar lefel leol.

Rhodddwyd y dasg i'r cydlynwyr lleol o drefnu gweithgareddau'r Flwyddyn Darllen yn eu hardaloedd, gan gasglu data monitro a bwydo'r wybodaeth yn ôl i Gyngor Llyfrau Cymru. Cawsant eu hannog i lunio pwyllgorau cydlynu lleol er mwyn helpu i lywio gweithgareddau. Mabwysiadwyd amrywiaeth o ddulliau gweithredu ar draws y 22 awdurdod lleol. Bu i rai awdurdodau fuddsoddi cryn dipyn o ymdrech, gan fynd ati i sefydlu pwyllgorau cydlynu gyda nifer o aelodau a manteisio ar sgiliau o amrywiaeth o ddisgyblaethau. Ychwanegwyd llawer o werth at y Flwyddyn Darllen o ganlyniad i ymrwymiad a brwdfrydedd yr awdurdodau lleol partner.

Bydd adrannau eraill o'r adroddiad gwerthuso hwn yn ehangu ar gyfraniadau partneriaid gweinyddu eraill. Un o nodau allweddol y Flwyddyn Darllen oedd sicrhau cefnogaeth ar lefel leol / gymunedol. Roedd y partneriaid a restrir isod yn gyswllt hanfodol rhwng y tîm canolog yng Nghyngor Llyfrau Cymru a'r unigolion hynny a oedd yn gyfrifol am ddarparu gweithgareddau'r Flwyddyn Darllen. Mewn rhai achosion, roedd partneriaid gweinyddu hefyd yn darparu nifer o weithgareddau, fel y dangosir yn ffigur 2 isod. Y partneriaid eraill a restrir yn y categori hwn yw'r rhai hynny a oedd yn gyfrifol am gydgyssylltu'r gwaith cysylltiadau cyhoeddus a hyrwyddo.

Roedd y drydedd haen, a'r olaf, yn gyfuniad o bartneriaid a oedd yn gyfrifol am amrywiaeth eang o'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y Flwyddyn Darllen yng Nghymru. Yn lansiad y Flwyddyn Darllen ym mis Mawrth 2008, bu i'r Gweinidog dros Addysg, Jane Hutt AC, gyflwyno her uchelgeisiol gerbron bobl Cymru i drefnu a chymryd rhan yng ngweithgareddau darllen 2008 yn ystod y flwyddyn. Llwyddwyd i wneud hyn, yn bennaf o ganlyniad i gyfraniad nifer helaeth o sefydliadau.

Ffigur 2: Partneriaid Cyngor Llyfrau Cymru o ran rheoli a gweinyddu'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru



Roedd Cyngor Llyfrau Cymru yn gallu dangos gwahanol gryfderau gyda gwahanol bartneriaid drwy:

- i. Gyfrannu at brosesau cynllunio gyda phartneriaid strategol a chynnal cysylltiadau strategol effeithiol, yn arbennig, gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy gydol y flwyddyn.
- ii. Darparu canllawiau i bartneriaid a oedd yn rhan o'r broses o gydgyssylltu a gweinyddu gweithgareddau fel rhan o'r wahanol ymgyrchoedd.
- iii. Yn aml yn cymryd rhan weithredol, drwy ddarparu cymorth ymarferol e.e. drwy'r wefan a thrwy gymryd rhan uniongyrchol yn y cymunedau darllen.

Roedd y Cyngor Llyfrau felly yn rhan o'r prosiect ar bob lefel, gan sicrhau bod partneriaid allweddol yn cymryd rhan lawn yn y Flwyddyn Darllen ac yn defnyddio'r dulliau gweithredu mwyaf effeithiol.

2.6 Datblygu partneriaethau newydd

O ganlyniad i'r Flwyddyn Darllen, datblygwyd partneriaethau newydd y tu hwnt i gysylltiadau cyffredin Cyngor Llyfrau Cymru gyda sefydliadau addysg a llyfrgelloedd. Datblygwyd perthynas arbennig o ddefnyddiol gyda'r TUC a'u timau o gynrychiolwyr undeb; tîm Plant sy'n Derbyn Gofal Llywodraeth Cynulliad Cymru; a Llamau, yr elusen ar gyfer pobl ddigartref.

Nid yn unig oedd y cysylltiadau hyn yn lledaenu effeithiau'r Flwyddyn Darllen yn eang drwy gyfrwng gweithgareddau ymarferol, megis dosbarthu llyfrau mewn gweithleoedd a hostelau i'r digartref, ond roedd hefyd yn helpu i ddileu'r rhwystrau ymddangosiadol a welir gan rai grwpiau.

2.7 Cysylltiadau strategol â mentrau eraill

Nid oedd yr ymgyrchoedd a sbardunwyd fel rhan o'r Flwyddyn Darllen yng Nghymru yn gwbl unigryw o ran eu nodau a'u hamcanion. Roedd gan strategaethau a oedd yn bodoli cyn y Flwyddyn Darllen, gan gynnwys y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol, yr un amcanion cyffredin a'r ymgyrch a byddant yn parhau felly tu hwnt i 2008. Yr her a oedd yn wynebu Cyngor Llyfrau Cymru wrth gynllunio gweithgareddau'r flwyddyn oedd sicrhau bod y gweithgareddau hynny yn ategu ac yn cyd-fynd â mentrau cenedlaethol pwysig eraill i hyrwyddo darllen a llythrennedd. Drwy gydweithio â phrif bartneriaid strategol, llwyddwyd i wneud hynny drwy gynllunio'n fwriadol.

Mae data ansoddol a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad yn dangos bod y Flwyddyn Darllen yng Nghymru wedi llwyddo i:


- Adeiladu ar y momentwm a grëwyd fel rhan o ymgyrch Darllenwch Filiwn o Eiriau, gan bwysleisio ar yr hwyl a'r mwynhad sydd i'w gael wrth ddarllen.
- Hyrwyddo cyfres Stori Sydyn / Quick Reads fel rhan o Wythnos Llyfr yn Anrheg.
- Cyfrannu at ymdrechion i farchnata llyfrgelloedd i gynulleidfaoedd ehangach, sef un o brif nodau'r strategaeth Llyfrgelloedd am Oes⁶.
- Rhoi cyfle i ysgolion dargedu'r rhai sy'n osgoi darllen (darllenwyr anfoddog), a defnyddio clybiau darllen i wella sgiliau llythrennedd bechgyn, sef blaenoriaeth a amlinellwyd yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf Estyn⁷.

Gallwn fod yn siŵr felly fod y Flwyddyn Darllen Genedlaethol wedi cysylltu'n dda â mentrau eraill a gynhaliwyd ar y cyd. Dywedodd un sylwebydd ei bod hi'n hollbwysig nad oedd y Flwyddyn Darllen yng Nghymru yn cael ei gweld fel ymgyrch a sbardunodd effeithiau gwibiol yn y tymor byr yn unig. Yn hytrach, dylai'r gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y Flwyddyn Darllen arwain y ffordd ar gyfer darparu strategaethau ehangach yn y dyfodol. Bydd adrannau dilynol o'r adroddiad hwn yn adlewyrchu i ba raddau y gellir neu y dylid parhau â phob un o'r gweithgareddau a pha wersi y gellir manteisio arnynt mewn perthynas â strategaethau cenedlaethol perthynol.

⁶ Llyfrgelloedd am Oes: Darparu Gwasanaeth Llyfrgell Modern i Gymru 2008-11, Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008)

⁷ Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2007-2008, Estyn (Ionawr 2009)

Ffigur 3: Cysylltiadau Strategol rhwng y Flwyddyn Darllen yng Nghymru a strategaethau allweddol eraill



2.8 Casgliadau cryno: effeithiolrwydd y trefniadau gweinyddu

Efallai mai'r ffordd fwyaf priodol o fesur pa mor effeithiol oedd trefniadau rheoli a gweinyddu'r Flwyddyn Darllen yw ystyried a lwyddodd Cyngor Llyfrau Cymru i gyflawni'r prif dargedau a amlinellwyd yn nhelerau ei gontract â Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r targedau ychwanegol a osodwyd gan y Gweinidog dros Addysg. Gellir crynhoi perfformiad Cyngor Llyfrau Cymru yn erbyn y targedau a'r amcanion hyn fel â ganlyn:

Ffigur 4: Perfformiad Cyngor Llyfrau Cymru o'i gymharu â phrif dargedau ac amcanion

Targed	Perfformiad	
Sefydlu 50 o <i>Glybiau 08</i> , gyda 10 aelod ym mhob clwb	Sefydlwyd 50 o glybiau gyda dros 500 o aelodau	√
Goruchwylio'r broses o ddarparu digwyddiadau Blwyddyn Darllen 2008	2509 o ddiwyddiadau erbyn diwedd y flwyddyn galendr	√
Sefydlu Cymunedau Darllen mewn partneriaeth a dau awdurdod lleol	Sefydlwyd Cymunedau Darllen yn Llanelli, Sir Gaerfyrddin a'r Barri, Bro Morgannwg	√
Rheoli a chydgysylltu ymgyrch Wythnos Llyfr yn Anrheg	Wythnos 7-12 Gorffennaf	√
Datblygu gwefan, cyhoeddusrwydd a brandio cysylltiedig	Wedi datblygu gwefan, cyhoeddusrwydd a brandio yn llwyddiannus	√
Sefydlu cysylltiadau a gweithio gyda phartneriaid allweddol ledled Cymru i ddatblygu a gweithredu rhaglen	Sefydlwyd cysylltiadau â phartneriaid strategol, gweinyddu a chyflawni (fel yr	√

gytunedig o weithgareddau i hyrwyddo darllen	amlinellir yn Adran 2.5 uchod) gan gynnwys pob un o'r 22 awdurdod lleol	
Dewis a chefnogi "hyrwyddwr darllen" i arwain gwaith ar lefel genedlaethol a chefnogi ymgyrchoedd lleol	Roedd y cais am gyllid a gyflwynwyd gan y Cyngor Llyfrau i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2007 yn cyfeirio at benodi 'Hyrwyddwr Darllen' ar gyfer y flwyddyn (roedd swydd debyg yn 1998). Yn y digwyddiad, dewisodd y Cyngor nifer o hyrwyddwyr darllen enwog, yn gysylltiedig â phrosiectau allweddol. Yn ogystal, gofynnwyd i Geraint Lewis siarad mewn amrywiaeth o lansiadau, ymgymryd ag apwyntiadau â'r cyfryngau a helpu i hyrwyddo digwyddiadau	√
Trefnu Cynhadledd Diwedd Blwyddyn ym mis Chwefror 2009 i arddangos yr arferion da a ddatblygwyd yn ystod y Flwyddyn Darllen Genedlaethol	Cynhaliwyd cynhadledd Chwefror 12, 2009	√
Cynhyrchu adroddiad diwedd blwyddyn ar ganlyniadau'r Flwyddyn Darllen Genedlaethol	Adroddiad wedi'i baratoi gan Dr Hywel Roberts	√

CASGLIADAU

- Roedd Cyngor Llyfrau Cymru mewn sefyllfa unigryw i ddarparu'r Flwyddyn Darllen yng Nghymru: roedd ei berthynas waith sefydledig â gwasanaethau llyfrgell yn sicrhau ei fod yn gallu galw ar bartneriaid allweddol ar fyr rybudd ac yn sicrhau cefnogaeth ar lefel leol, sef dau beth a oedd yn hanfodol er mwyn gallu darparu'r ymgyrchoedd yn llwyddiannus.
- Tra bo nifer o bartneriaid wedi cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd ac ar wahanol lefelau- drwy gynllunio, cydlynu a darparu'n strategol- roedd y Cyngor Llyfrau yn rhan o'r prosiect ar bob lefel, gan fanteisio ar arbenigedd allanol yn ôl y galw.
- Mae'r sefydliad yn ei gyfanrwydd – ac yn arbennig y Cydlynnydd Cenedlaethol – yn haeddu cryn dipyn o ganmoliaeth am lwyddo i gyflawni ei rwymedigaethau contract ar ran Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn arbennig o ystyried bod yr ymgyrchoedd wedi'u gweithredu o fewn amserlenni tynn iawn.
- Roedd strategaeth y tîm canolog wrth weinyddu'r Flwyddyn Darllen yn cynnwys dirprwyo cyfrifoldeb dros gydgyssylltu a darparu gweithgareddau i ystod eang o bartneriaid. Roedd hi'n angenrheidiol eu bod yn gweithredu yn y modd hwn o ystyried yr adnoddau a oedd ar gael iddynt. Wrth wneud hyn, roedd angen cadw cydbwysedd: ymgysylltu â nifer o bartneriaid amrywiol a pheidio â'u llethu â gormod o gyfrifoldebau monitro. Llwyddwyd i wneud hyn yn effeithiol.

- Mae'r modd yr aeth Cyngor Llyfrau Cymru ati i reoli a gweinyddu'r Flwyddyn Darllen yng Nghymru hefyd wedi ychwanegu gwerth: darparwyd adnoddau staff ychwanegol i gefnogi'r broses o ddatblygu a rheoli'r ymgyrchoedd; ac roedd yr amser a gyfrannwyd ar ran sefydliadau partner ar lefel leol hefyd yn elfen a gyfrannodd yn fawr at lwyddiant y flwyddyn.
- A Fel y nodir yn adran 2.6, mae tystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad yn dangos bod yr ymgyrchoedd a gynlluniwyd fel rhan o'r Flwyddyn Darllen wedi gweddu'n effeithiol â mentrau a strategaethau cenedlaethol ehangach.

3. WYTHNOS LLYFR YN ANRHEG

3.1 Disgrifiad o'r ymgyrch

Wythnos Llyfr yn Anrheg oedd y cyntaf o'r tair ymgyrch a chynhaliwyd yr ymgyrch yn ystod yr ail wythnos ym mis Gorffennaf 2008. Roedd yn canolbwyntio ar annog pobl o bob oedran i roi llyfrau yn anrhegion i'w gilydd, gan fenthycu o'r traddodiad Catalaneg o roi llyfrau (a rhosynnau) ar Ebrill 23. Mewn sawl ffordd, gellir dweud mai'r ymgyrch hon a osododd y safon ar gyfer y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yng Nghymru o ran y ffaith ei bod wedi hyrwyddo darllen fel rhywbeth y gall pawb ei wneud, waeth beth yw eu hoedran na'u cefndir. Cafodd pawb eu hannog i gymryd rhan ac roedd yr wythnos, yn ôl is-wefan Rhoi Llyfr yn Anrheg:

'Yn esgus gwych i bobl ledled Cymru i rannu'r pleser a gânt wrth ddarllen gyda pherthynas, ffrind neu gydweithiwr.'

Cafodd yr ymgyrch ei lansio mewn digwyddiad uchel ei broffil yng nghanol Caerdydd ym mis Mehefin, a dilynwyd hyn gydag ymgyrch yn y cyfryngau. Estynnwyd gwahoddiad i gwmnïau dendro am y gwaith o gyfathrebu gyda'r wasg a chysylltiadau cyhoeddus ynghylch yr ymgyrch; comisiynwyd Golley Slater i helpu gyda'r gwaith o hyrwyddo'r ymgyrch a chreu cyhoeddusrwydd gan sicrhau bod enwogion a ffigurau o fewn bywyd cyhoeddus yn helpu i godi proffil yr Wythnos Llyfr yn Anrheg. Bu i'r cyngor a ddarparwyd gan arbenigwyr cysylltiadau cyhoeddus helpu i ddatblygu strategaeth i ledaenu gwybodaeth am yr ymgyrch, a oedd yn cynnwys cyfuniad o ddulliau gweithredu i sicrhau bod y fenter Blwyddyn Darllen gyntaf hon yn cyrraedd cynulleidfa eang. Cynhaliwyd ymgyrch hysbysebu ar y radio - a ddarledwyd ar ddeuddeg o orsafoedd lleol gan gyrraedd cynulleidfa botensial o dros filiwn o bobl.

Dosbarthwyd deunyddiau hyrwyddo (gan gynnwys 5,500 o bosteri, 20,000 o nodau tudalen a bron i 10,000 o sticeri) i siopau llyfrau, llyfrgelloedd, ysgolion a gweithleoedd a chomisiynwyd model mawr o lyfrau yn arbennig i'w arddangos mewn gwyliau a digwyddiadau. Yn ogystal, dosbarthwyd negeseuon e-bost eang yn nodi'r dyddiad.

3.2 Amcanion Wythnos Llyfr yn Anrheg

Mae'r adran hon yn ail-ymweld ag amcanion craidd ymgyrch Wythnos Llyfr yn Anrheg ac yn ystyried, yn seiliedig ar dystiolaeth a adolygwyd yn ystod y gwerthusiad, a gafodd yr amcanion hyn eu gwireddu. Roedd yr amcanion craidd fel a ganlyn:

- Sicrhau ymgyrch gynhwysfawr a oedd yn agored ac yn apelio at bawb.
- Targedu darllenwyr newydd.
- Annog pobl ledled Cymru i gymryd rhan yn yr ymgyrch ac i'w chefnogi.
- Rhoi pwyslais ar yr elfen o gael 'hwyl'.

Bu i'r ymgyrch hyrwyddo a marchnata sicrhau bod cryn dipyn o sylw yn cael ei roi i'r fenter gyntaf hon fel rhan o'r Flwyddyn Darllen. Nododd un o gynrychiolwyr Cyngor

Llyfrau Cymru mai'r bwriad oedd *'creu argraff a chreu momentwm mor gyflym â phosibl'*, yn bennaf o ganlyniad i bryderon ynghylch amser. Roedd y Gweinidog dros Addysg, Jane Hutt AC, yn bresennol yn y lansiad ar Stryd y Frenhines yng nghanol dinas Caerdydd, ac fe gyfranodd hynny at greu achlysur o fri. Roedd Simon Weston hefyd yn bresennol, ynghyd â Jasmine Aherne, a oedd yn cynrychioli apêl 'Noah's Ark' ac a dderbyniodd gwerth £1,000 o lyfrau ar gyfer Ysbyty Plant Cymru. Cyflwynwyd llyfrau i aelodau o'r cyhoedd, gan ennyn diddordeb eang a denu cryn dipyn o sylw yn y wasg. Roedd y rhai a oedd yn bresennol yn rhyfeddu at y brwdfrydedd a ddangoswyd gan rieni a'u plant a oedd yn ddiolchgar iawn am yr anrhegion. Roedd llawer o'r llyfrau a ddosbarthwyd yn perthyn i'r gyfres Stori Sydyn, cyfrolau ffuglen a ffeithiol wedi'u hanelu at bobl nad ydynt yn ddarllenwyr hyderus.

Cafodd y cyhoedd ehangach hefyd eu hannog i fod yn rhan o'r Wythnos Llyfr yn Anrheg drwy gyfrwng ymgyrch e-bost: anfonwyd 164,000 o negeseuon e-bost dros gyfnod o dair wythnos. Ar yr un pryd, dosbarthwyd deunydd hyrwyddo i amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys ysgolion, llyfrgelloedd, siopau llyfrau a siopau elusennol ledled Cymru. Roedd Cyngor Llyfrau Cymru yn rhagweithiol yn eu hymdrech i ledaenu'r gair: hysbyswyd siopau llyfrau am y Flwyddyn Darllen a'r Wythnos Llyfr yn Anrheg drwy gyflwyniadau gan staff y Cyngor Llyfrau mewn rhwydweithiau masnach llyfrau. Yn ddealladwy, o ganlyniad i'r amserlen gyfyng, ni chafodd y gwerthwyr llyfrau llawer o gyfle i ddatblygu eu syniadau a'u gweithgareddau eu hunain cymaint ag y byddent wedi'i hoffi. Fodd bynnag, yr Wythnos hon oedd y brif ffordd i werthwyr llyfrau fod yn rhan lawn o'r Flwyddyn Darllen a llwyddodd llawer ohonynt i drefnu digwyddiadau a deunyddiau ychwanegol yn lleol.

Mewn cyfweiliadau â pherchenogion y siopau llyfrau, datgelwyd eu bod yn croesawu'r deunydd hyrwyddo a'r hwb yr oeddent yn ei roi i'w hymdrechion personol i farchnata llyfrau a darllen yn eu cymunedau eu hunain. Roedd gwerthwyr llyfrau yn gweithio gydag ysgolion lleol, gan gyflwyno llyfrau i ddisgyblion am sut i ymdopi â'r cam mawr o symud i'r ysgol uwchradd. Yn wir, roedd amseru'r ymgyrch yn ystyriaeth bwysig arall ac mae'n ymddangos bod diwedd y flwyddyn academiaidd wedi cyflwyno cyfleoedd gwych i gydweithio ag ysgolion yn effeithiol.

Defnyddiwyd sêr enwog i hyrwyddo'r ymgyrch am nifer o resymau: roedd yn ffordd dda o ddenu sylw'r cyfryngau, gan sicrhau llawer iawn o gyhoeddusrwydd ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol fel ei gilydd. Roedd lluniau o bersonoliaethau a ffigurau cyhoeddus amlwg yn derbyn llyfrau – gan gynnwys Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, Boris Johnson, Max Boyce a llawer mwy – yn helpu i hyrwyddo'r neges bod llyfrau yn bethau i'w mwynhau gan bawb. Cyflwynodd Beti George y llyfr *Paradwys* gan William Owen Roberts (cyhoeddwyd gan Barddas) i Gwyn Llewelyn:

'Dw' i am roi'r gyfrol hon yn anrheg i Gwyn Llewelyn - yn hytrach na mynd o gwmpas y byd mor aml yn chwilio am ei baradwys, fe allaf ei sicrhau y daw e o hyd iddi heb symud o'i gadair esmwyth gartre!'

Cyflwynodd Tori James, y ferch gyntaf o Gymru i ddringo mynydd Everest, gopi o *Sugar and Slate* gan Charlotte Williams (Planet) i'w chwaer, Liv:

'Pan fyddaf eisiau rhannu rhywbeth Cymreig, gyda fy chwaer Liv y byddaf yn gwneud hynny gan amlaf. Boed yn ganlyniad gêm rygbi, cerddoriaeth Gymreig, rhaglen deledu neu, fel yn yr achos hwn, llyfr da, byddaf yn siŵr o ffonio Liv neu anfon e-bost ati. Mae'n chwaer imi, ond hi hefyd yw fy ffrind gorau. A ninnau'n byw bywydau prysur, mae'r ddwy ohonom yn dewis ymlacio drwy ddarllen, ac ers inni ymgartrefu mewn dinasoedd sydd â diwylliannau cwbl wahanol, yr ydym wedi cymryd mwy a mwy o ddiddordeb mewn hunaniaeth ddiwylliannol. Yr wyf wedi dewis Sugar & Slate gan Charlotte Williams ar ei chyfer oherwydd dyma'n union y math o lyfr y byddai ganddi ddiddordeb ynddo. Joia'r darllen, Liv!'

Cafodd y pleser a'r mwynhad sydd i'w gael wrth ddarllen hefyd ei bwysleisio mewn erthyglau papur newydd lleol a chymunedol a oedd yn annog darllenwyr i roi llyfrau fel anrhegion yn ystod yr wythnos o dathlu. Dywedodd un cyfrannwr:

'Nid yw darllen erioed wedi bod yn faich i mi, ond yn hytrach, yn bleser.'

'Er ein bod ni'n darllen i gael gwybodaeth neu i ddysgu fwy, mae rheswm arall dros ddarllen, yn bennaf i fwynhau'r pleser. Ac os ydych chi'n un o'r rheini sydd wir yn darllen er pleser, byddwch yn gwybod bod byd enfawr y gellir camu i mewn iddo unrhyw adeg o'r dydd.'

3.3 Effaith Ymgyrch Wythnos Llyfr yn Anrheg

Fel ymgyrch hyrwyddo, gellir mesur llwyddiant yr Wythnos Llyfr yn Anrheg yn rhannol o ran y cyhoeddusrwydd a lwyddodd i'w ddenu. Fel rhan o'i contract ar gyfer y wasg a chyhoeddusrwydd, roedd FBA yn gyfrifol am gofnodi'r sylw a roddwyd i'r ymgyrch yn y wasg a'r cyfryngau gan amcangyfrif ei gyrhaeddiad a'i werth. Roedd FBA yn crynhoi'r cyhoeddusrwydd a grëwyd bob mis, ac yna'n amcangyfrif Gwerth Hysbysebu Cyfatebol (EAV) a Gwerth Cysylltiadau Cyhoeddus (PR) yr erthyglau. O'r mesurau hyn, mae'n glir bod yr ymgyrch wedi casglu momentwm yn y cyfnod cyn yr wythnos ei hun. Ym mis Mehefin roedd 14 o erthyglau yn y wasg yn cyrraedd cynulleidfa botensial o 836,582 a phum eitem ar y teledu neu'r radio yn cyrraedd cynulleidfa gyfartalog botensial o dros un filiwn, yn ôl adroddiad FBA. Dros y flwyddyn gyfan, nododd FBA bod 1,221 o erthyglau wedi ymddangos yn y wasg gan gyrraedd dros 8.5 miliwn o ddarllenwyr, ac maent yn amcangyfrif bod hyn yn cynrychioli EAV o £155,768 a gwerth cysylltiadau cyhoeddus (PR) o bron i hanner miliwn o bunnau.

Wrth gwrs, nid wrth fesur maint a hyd erthyglau y mae mesur gwir effaith unrhyw ymgyrch hyrwyddo, ond yn hytrach drwy edrych ar y cynnydd mewn ymwybyddiaeth neu gydnabyddiaeth o fater penodol. Ni chasglwyd unrhyw ddata i fesur y newidiadau mewn agweddau na lefelau ymwybyddiaeth o'r Flwyddyn Darllen dros gyfnod y Flwyddyn. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gan rai a gyfranodd at yr adroddiad hwn yn nodi'n glir bod 'cyrhaeddiad' yr ymgyrch yn eithaf nodedig, gyda'r ymgyrch genedlaethol yn cael ei ategu â gweithgareddau wedi'u hyrwyddo yn lleol drwy siopau llyfrau, papurau bro, llyfrgelloedd ac awdurdodau lleol a thrwy droedio'r strydoedd a chodi ymwybyddiaeth yn uniongyrchol â'r cyhoedd. Rhoddwyd hwb i'r dull gweithredu amrywiol hwn gyda'r cyngor arbenigol a gafwyd gan asiantaeth

allanol, a hynny drwy law'r Cyngor Llyfrau. Gwireddwyd y lansiad uchel ei broffil yr oedd ei angen ar y Flwyddyn Darllen.

Cafodd llwyddiant yr ymgyrch ar lefel genedlaethol effaith ar lefel leol hefyd. Defnyddiodd un siop lyfrau yng Nghaernarfon yr Wythnos Llyfr yn Anrheg fel sbardun i gynyddu gwerthiant: roedd y cwsmeriaid hynny a oedd yn prynu llyfrau yn ystod yr wythnos yn cael gostyngiad o 10% ar eu hymweliad nesaf. O ganlyniad, llwyddodd y siop lyfrau i gynyddu ei werthiant a chynnal hynny am gyfnod o 4 wythnos dros yr haf.

Tra bo'r ymgyrch mewn rhai ffyrdd yn ymgyrch hyrwyddo a oedd yn anelu at godi ymwybyddiaeth ymhlith cynulleidfa mor eang â phosibl, roedd tystiolaeth yn dangos ei bod wedi llwyddo i dargedu darllenwyr newydd. Cyflwynodd grŵp Merched y Wawr lleol, mewn partneriaeth â chwmni cyhoeddi Honno, gasgliad o lyfrau i loches menywod yn Aberystwyth. Cyflwynwyd gwerth £1,000 o lyfrau i Ysbyty Plant Cymru. Cynhaliodd Ysgol Danygraig yn Abertawe ddigwyddiad arbennig i gyflwyno llyfr yn anrheg i bob disgybl a oedd yn gadael yr ysgol yr haf hwnnw. Ac yn olaf, fe aeth Ysgol Syr Hugh Owen yng Nghaernarfon, â chasgliad o lyfrau i blant yn Zambia yn ystod ymweliad â'r wlad honno.

3.4 Ffactorau a oedd yn allweddol i lwyddiant

Roedd gan yr Wythnos Llyfr yn Anrheg amcanion clir iawn, ac o ganlyniad i ymdrechion a ffocws proffesiynol, llwyddwyd i wireddu'r amcanion hyn. Roedd hefyd yn gosod y safon ar gyfer gweddill gweithgareddau ac ymgyrchoedd y flwyddyn. Mae'r gwerthusiad yn ystyried y ffactorau canlynol i fod yn rhan allweddol o lwyddiant yr ymgyrchoedd:

- i. Roedd yn seiliedig ar **egwyddor glir a syml** - y syniad y gall bawb rannu'r pleser o roi a derbyn llyfr. Dywedodd un cyfrannwr i'r gwerthusiad bod y pwyslais ar roi anrheg, yn hytrach na'r broses o ddarllen neu wella llythrennedd, yn helpu apêl yr ymgyrch.
- ii. Roedd hyn, yn ei dro, yn hybu ymdeimlad o **fod yn rhan o rywbeth**. Roedd yr ymgyrch yn un ysgafn gyda'r pwyslais ar fwynhau.
- iii. Rhoddwyd **cymhellion** i amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau. Yn ogystal â rhoi llyfrau i bobl a oedd yn pasio ar y stryd yn ystod y lansiad ym mis Mehefin, darparodd y Gweinidog dros Addysg gwerth hyd at £30,000 o lyfrau i grwpiau cymunedol ledled Cymru. Cafodd pob llyfrgell leol focsys o lyfrau i'w dosbarthu i grwpiau lleol. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys canolfannau cymunedol, grwpiau sgiliau sylfaenol, plant a phobl ifanc mewn gofal, ysbytai, llochesau ar gyfer menywod a llawer o sefydliadau eraill. Roedd hyn yn golygu bod y Flwyddyn Darllen, o'r cychwyn cyntaf, wedi gallu ymgysylltu â grwpiau difreintiedig ac anodd eu cyrraedd, sef rhagor o dystiolaeth fod yr ymgyrch wedi mynd ati i gynnig rhywbeth i bawb.
- iv. Cytunodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a staff llyfrgelloedd lleol bod yr ymgyrch **yn gryf yn weledol**, yn bennaf oherwydd y deunyddiau a'r brandio a ddefnyddiwyd a thrwy ddefnyddio sêr enwog, a oedd yn creu cyhoeddusrwydd a lluniau y gellir eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn.

- v. Yn olaf, roedd yr Wythnos arbennig hon yn **cefnogi'r broses o hyrwyddo a darparu ymgyrch ehangach** – h.y. lansiad y Flwyddyn Darllen yn ei chyfanrwydd. Mewn rhai agweddau, gan nad yw'n fenter sy'n sefyll ar ei phen ei hun, mae mesur y canlyniadau yn anodd. Efallai ei bod yn well ei hystyried fel menter hyrwyddo ychwanegol sy'n mynd ati i geisio ymgysylltu â'r cyhoedd ehangach fel rhan o ymgyrch fwy sefydledig.

3.5 Cynaliadwyedd ac argymhellion

Yn dilyn o bwynt v., uchod, mae achos cryf dros adeiladu ar lwyddiant yr Wythnos Llyfr yn Anrheg a'i chysylltu â digwyddiad neu fenter ehangach. Wrth i ni gynnal y gwerthusiad hwn, roedd trefniadau yn mynd rhagddynt i annog pobl i roi llyfrau i'w gilydd ar Ddiwrnod y Llyfr (Mawrth 5), o dan y pennawd '*Rhoi Llyfr yn Anrheg ar Ddiwrnod y Llyfr*'. Mae'r cynllun hwn yn ymddangos i fod yn ddull synhwyrol y gellir ei ddefnyddio yn flynyddol.

Roedd hi'n glir bod yr arian a gafodd ei glustnodi ar gyfer yr Wythnos Llyfr yn Anrheg yn ystod y Flwyddyn Darllen (£50,000) yn pennu graddfa a chyrhaeddiad yr ymgyrch. Pe na bai'r lefelau hyn o gyllid ar gael bob blwyddyn, a phe bai angen hyrwyddo'r ymgyrch ar raddfa lai yn y dyfodol, efallai y byddai'n rhaid rhoi llai o bwyslais ar ddefnyddio enwogion i ddenu cyhoeddusrwydd. Mae'n ymddangos y byddai'n syniad da i barhau i gynnwys ysgolion, llyfrgelloedd, siopau llyfrau ac ystod eang o sefydliadau cymunedol, gan danlinellu'r egwyddor graidd, bod darllen yn rhywbeth i bobl o bob oedran a phob cefndir.

ARGYMHELLION

- Dylid parhau â'r Wythnos Llyfr yn Anrheg, neu ymgyrch debyg, fel rhan o Ddiwrnod y Llyfr, bob blwyddyn.
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru, bennu graddfa a ffocws y gweithgareddau hyrwyddo o fewn ymgyrch o'r fath a dylai cyllid fod ar gael i adlewyrchu hyn.

4. CYMUNEDAU’N DARLLEN

4.1 Cyflwyniad i’r ymgyrch Cymunedau’n Darllen

Roedd ymgyrch Cymunedau’n Darllen yn seiliedig ar y model ‘Dinas Darllen’ (Reading City) a ddefnyddiwyd yn Ilwyddiannus yn yr UD a’r DU. Cafodd y model ei deilwra i ddiwallu anghenion y Flwyddyn Darllen yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar weithgareddau cymunedol, a hynny yn seiliedig ar ddau lyfr, un yn Gymraeg a’r llall yn Saesneg. Gwahoddwyd pob awdurdod lleol yng Nghymru, drwy Gymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru, i wneud cais am un o ddwy wobwr ariannol (gwerth £20,000 yr un).

4.2 Nodau ymgyrch Cymunedau’n Darllen

Amlinellwyd nodau’r ymgyrch penodol hwn mewn llythyr gan Gydlynnydd y Flwyddyn Darllen yng Nghymru. Yn gryno, gwahoddwyd awdurdodau lleol i gyflwyno cynigion a fyddai’n bodloni’r nodau canlynol:

- Creu rhaglen o weithgareddau yn seiliedig ar ddau lyfr dewisedig.
- Sefydlu ymdeimlad o berchenogaeth gymunedol a sicrhau bod pobl leol yn rhan o’r ymgyrch o’r cychwyn cyntaf.
- Sicrhau bod gan grwpiau a sefydliadau lleol ran i’w chwarae yn y gweithgareddau arfaethedig.
- Sicrhau bod adrannau eraill o fewn yr awdurdod lleol yn cydweithio; a
- Denu sylw’r wasg leol.

4.3 Y cymunedau llwyddiannus

Derbyniwyd pedwar cynnig / datganiad o ddiddordeb gan wasanaethau llyfrgell ar ôl i Gyngor Llyfrau Cymru anfon llythyr i’w hysbysu. Unwaith eto, cafwyd cyn lleied o geisiadau yn bennaf o ganlyniad i’r amserlenni tynn iawn a roddwyd i’r awdurdodau gyflwyno eu ceisiadau. Fodd bynnag, cyflwynodd y ddwy gymuned fuddugol syniadau arloesol a chyffrous iawn. Y ddwy gymuned a ddewiswyd i fod yn Gymunedau Darllen 2008 oedd y Barri, ym Mro Morgannwg, a Llanelli, yn Sir Gaerfyrddin.

Fe aeth Llanelli a’r Barri ati i lunio grwpiau llywio er mwyn dylunio a chynllunio gweithgareddau, gan weithio’n agos â’r Cyngor Llyfrau wrth iddynt ddiwygio eu cynigion a phenderfynu ar drefniadau terfynol. Roedd canllawiau ychwanegol gan y Cyngor Llyfrau yn pwysleisio bod angen i’r Grwpiau Llywio ystyried cynaliadwyedd ar ôl 2008. Fel y bydd y tudalennau nesaf yn ei ddangos, fe aeth y ddwy gymuned ati mewn gwahanol ffyrdd – yn ôl y disgwyl. Mae’r ddwy yn cynnig modelau diddorol ar gyfer gweithgareddau’r dyfodol.

4.4 Cymuned Ddarllen y Barri

Arweiniwyd y grŵp llywio yn y Barri gan Siân Jones, Prif Lyfrgellydd Bro Morgannwg, a oedd yn cydnabod bod y cyllid a oedd ar gael yn *“gyfle unigryw i fod yn arloesol”*

ac i roi cynnig ar amrywiaeth o weithgareddau a phrosiectau newydd gyda phartneriaid yn y gymuned leol. O'r cychwyn cyntaf, roedd y ffocws ar gynaliadwyedd ac ar ddefnyddio cyllid Cymunedau'n Darllen i sefydlu cynsail gadarn y gellir seilio gweithgareddau'r dyfodol arni.

Felly, roedd gan y rhai hynny a oedd yn arwain yr ymgyrch weledigaeth glir o ran beth oeddent am ei gyflawni. Un peth arall a oedd yn rhaid ei ystyried yn gynnar yn y broses oedd sut i gyfeirio'r gweithgareddau: y prif ffactorau a oedd yn dylanwadu ar y penderfyniad hwn yn y Barri oedd nifer a gallu'r staff, y cyfleusterau newydd gwych a oedd ar gael yn llyfrgell y dref a pha mor hygyrch oedd y gweithgareddau hyn i'r gymuned.

Yr amserlenni tynn oedd yr her fwyaf: roedd y grŵp llywio yn cydnabod bod angen bod yn realistig o ran beth oedd modd ei gynllunio a'i ddarparu erbyn diwedd y flwyddyn galendr. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, roedd wahanol reolwyr o fewn tîm y llyfrgell yn gyfrifol am wahanol weithgareddau. Roedd ymgyrch Cymunedau Darllen y Barri yn cynnwys rhaglen amrywiol o ddiwyddiadau:

Y Barri: Dewis Llyfr Difyr

Gwnaed ymdrech unedig i sicrhau bod amrywiaeth eang o grwpiau yn gallu cymryd rhan yn y broses o lunio rhestr fer o lyfrau i'w rhoi gerbron pleidlais y cyhoedd. Anfonwyd llythyrau at grwpiau darllen, siopau llyfrau, dosbarthiadau addysg oedolion, athrawon ysgolion uwchradd a Merched y Wawr yn gofyn am enwebiadau. Lluniwyd panel i ystyried y llyfrau a gafodd eu henwebu a chytunwyd ar ddwy restr fer.

Gwnaed ymdrech unedig i sicrhau bod pobl yn gallu bwrw pleidlais mewn amrywiaeth o leoliadau: rhoddwyd blychau pleidleisio mewn llyfrgelloedd, siopau llyfrau, canolfannau hamdden a swyddfeydd y cyngor ledled yr awdurdod. Roedd hi hefyd yn bosibl pleidleisio drwy wefan y Flwyddyn Darllen. Y disgwyl oedd y byddai'r rhestrau byr yn creu diddordeb yn y llyfrau ac, er bod gwasanaeth llyfrgell Bro Morgannwg yn darparu copiâu i lyfrgelloedd lleol, roedd y galw yn llawer mwy na nifer y copiâu a oedd ar gael yn ystod y chwe wythnos o bleidleisio. Cynhaliwyd y broses bleidleisio dros wyliâu'r haf, ac yn ôl y grŵp llywio, cafodd hyn effaith negyddol ar nifer y bobl a oedd yn gallu cymryd rhan, gan fod ganddynt ymrwymïadau eraill dros fisoedd yr haf. Bu i gyfanswm o 649 o bobl fwrw eu pleidlais, a'r ddau lyfr a buddugol oedd:

Martha, Jac a Sianco gan Caryl Lewis
The Kite Runner gan Khaled Hosseini

Gŵyl Lyfrau – Dathliad Darllen Difyr!

Cynhaliwyd Dathliad Darllen Difyr y Barri dros benwythnos Hydref 31 - Tachwedd 2 gan gynnig rhaglen lawn o weithgareddau yn cynnwys darlenniadau (i blant ac oedolion), areithiau gan awduron adnabyddus a sêr y byd radio a theledu a gweithgareddau eraill a oedd yn gysylltiedig â'r ddau lyfr a ddewiswyd fel rhan o Dewis Llyfr Difyr y Barri. Bu i awdur y llyfr Cymraeg a

ddewiswyd gan y gymuned, Caryl Lewis, gymryd rhan mewn dau ddigwyddiad.

Roedd nifer go dda o bobl yn bresennol yn y digwyddiadau: mae data monitro mewnol a ddarparwyd gan y Grŵp Llywio yn dangos bod 423 o bobl wedi mynychu'r wahanol ddigwyddiadau, traean ohonynt nad oeddent erioed wedi bod i'r llyfrgell o'r blaen. Cafodd ei nodi bod lefelau boddhad yn uchel iawn. Yn ogystal, llwyddodd y Dathliad Darllen Difyr i ddenu torfeydd o bobl i'r stondinau ar sgwâr y dref, gan greu awyrgylch llawn hwyl drwy gydol y penwythnos. Adroddodd y Grŵp Llywio bod trefnu rhaglen mor eang o ddigwyddiadau ar gyfer y gymuned mewn cyn lleied o amser wedi bod yn her fawr a oedd yn faich mawr ar brydiau. Fodd bynnag, roedd y digwyddiad yn un llwyddiannus ac yn ddathliad a oedd yn ganolog i statws y Barri fel Cymuned Ddarllen.

Dosbarthiadau ysgrifennu creadigol

Comisiynwyd Phil Carradice, bardd, awdur straeon byrion a hanesydd lleol, i arwain dosbarthiadau ysgrifennu creadigol wedi'u dylunio ar gyfer pobl ag anghenion arbennig a oedd yn mynychu Canolfannau Dysgu Agored y Barri. Cynhaliwyd tri gweithdy a llwyddodd i ysgogi ysgrifennu diddorol a herfeiddiol a gafodd ei arddangos yn y llyfrgell. Mae tystiolaeth gan y rhai hynny a oedd yn rhan o'r dosbarthiadau yn dangos bod y gweithgareddau wedi deffro dyheadau a datblygu sgiliau ysgrifennu newydd.

Prosiect celf

Datblygwyd yr elfen hon o fenter Cymuned Ddarllen y Barri gyda'r nod o gynnwys myfyrwyr ifanc o Goleg y Barri: cawsant friff i gynhyrchu gwaith celf a oedd yn portreadu'r Barri fel tref ddarllen. Roedd y Grŵp Llywio yn awyddus i ddathlu'r Flwyddyn Darllen o ongl wahanol, tra hefyd yn adeiladu ar berthynas a oedd eisoes yn bodoli rhwng y llyfrgell a Choleg y Barri. Cafodd y murlun a gynhyrchwyd ei ddadorchuddio yn ystod penwythnos y Dathliad Darllen Difyr.

Darllenydd Preswyl

Cafodd Michael Harvey, storiwr dwyieithog, ei benodi fel Darllenydd Preswyl. Roedd ei rôl yn cynnwys mynd o amgylch amryw o sefydliadau a lleoliadau cymunedol, gan ddarllen dyfyniadau o'r llyfrau buddugol ac arwain trafodaethau ar y dyfyniadau hyn. Parhawyd â'r gweithgaredd hwn hyd at ddechrau 2009 ac mae hi wedi llwyddo i gynnal momentwm y Flwyddyn Darllen, gan gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach a grwpiau cymunedol. Ymhlith y rhai y bu i'r darllenydd ymweld â nhw oedd cartrefi gofal, dysgwyr Cymraeg, ysgolion a grwpiau darllen.

Sioe Ffasiwn yn ystod penwythnos Dathliad Darllen Difyr y Barri

Yn olaf, gofynnwyd i fyfyrwyr o adran decstiliau Coleg y Barri ddylunio a chynhyrchu dehongliadau o lyfrau / cymeriadau, a hynny drwy gynhyrchu

gwisgoedd. Cafwyd ymateb brwd, ac fe arddangoswyd y gwaith yn ystod y Dathliad Darllen Difyr.

4.5 Effaith a gafwyd yn y Barri

Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio rhai o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r dystiolaeth ansoddol a gasglwyd:

4.5.1 Codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu

Cafwyd cryn lwyddiant wrth hyrwyddo gweithgareddau, gan ddenu sylw lleol (drwy gyfrwng y papur newydd lleol, papur newydd rhad ac am ddim y Cyngor) a sylw cyfryngau cenedlaethol ehangach, gan gynnwys *Radio Cymru, Wedi 7, Y Cymro* a *Go/wg*. Un o'r dulliau mwyaf arloesol a lliwgar o godi ymwybyddiaeth oedd gofyn i Grŵr y Dref gyhoeddi'r llyfrau buddugol yn ystod y Dathliad Darllen Difyr.

Roedd rôl amlwg gan staff y llyfrgell wrth ddsbarthu deunydd hyrwyddo i ganolfannau cymunedol, meddygfeydd a chanolfannau hamdden. Roedd lleoliadau yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod dathliadau'r Gymuned Ddarllen yn dra amlwg: mae llyfrgell y Barri yng nghanol y dref a byddai pawb a ddaeth i'r dref dros y penwythnos wedi bod yn ymwybodol o'r dathliad.

Nododd y grŵp llywio yr angen i neilltuo cyfran sylweddol o'r £20,000 i dalu am hyrwyddo digwyddiadau. Gwariwyd tua £8,000 ar weithgareddau hyrwyddo, £8,000 ar awduron (a oedd hefyd yn hanfodol er mwyn gallu hyrwyddo a marchnata digwyddiadau), a £2,500 ar lyfrau.

4.5.2 Adeiladu timau a phartneriaethau

Cafodd un agwedd ar ymgyrch Cymuned Ddarllen y Barri effaith fwy ar y llyfrgell yn fewnol nag ar y gymuned ehangach. Un o sgil-efeithiau'r ymgyrch oedd i'r tîm dynnu at ei gilydd, gan feithrin sgiliau newydd ymysg y staff a chryfhau partneriaethau'r llyfrgell ag eraill. Roedd gofyn hefyd iddynt fod yn hynod drefnus; llwyddwyd yn hyn o beth drwy briodoli cyfrifoldeb dros brosiectau penodol i unigolion penodol. Yn ôl un o aelodau'r grŵp llywio: *'Mae ein tîm yn y Barri yn gryfach ac yn fwy trefnus o ganlyniad i fenter y Cymunedau Darllen.'*

Hwyluswyd y trefniadau gan y ffaith bod un o Swyddogion Datblygu Rhanbarthol *Llyfrgelloedd am Oes* De-ddwyrain Cymru wedi'i lleoli yn y Barri. Bu iddi hi wneud cyfraniad pwysig wrth gysylltu ag ysgolion uwchradd a sefydliadau eraill. Yn ogystal ag ychwanegu capasiti ychwanegol i'r tîm, bu hefyd yn gyswllt â datblygiadau strategol ehangach.

4.6 Cymuned Ddarllen Llanelli

Penododd ymgyrch Cymuned Llanelli'n Darllen gydlynnydd lleol, sef Garry Nicholas, i hwyluso'r gweithgareddau. Cafodd ef ei gefnogi gan Brif Lyfrgellydd Sir Gaerfyrddin, Dewi Thomas, gan Mark Jewell, Rheolwr Llyfrgell Rhanbarthol Llanelli, a chan Myrddin Morgan, Rheolwr Llyfrgell Rhanbarthol Rhydaman. Nod yr ymgyrch oedd adeiladu ar y traddodiad hir sefydlog o lyfrgelloedd fel canolfannau addysg yn

Llanelli, ac aeth y tîm ati'n fwriadol i seilio'r ymgyrch ar lyfrau a oedd o ddiddordeb lleol. I'r perwyl hwnnw, dewisodd y tîm restr fer o lyfrau â chanddynt gysylltiad Cymreig neu gysylltiad â'r ardal leol, a oedd yn adlewyrchu gwybodaeth y tîm o awydd lleol am lyfrau ffeithiol (yn hytrach na llyfrau ffuglen).

4.6.1 Y lansiad

Lansiwyd Cymuned Llanelli'n Darllen ym mis Gorffennaf 2008 gyda digwyddiad yn llyfrgell y dref. Diben y digwyddiad oedd cyhoeddi'r llyfrau ar y rhestr fer a hyrwyddo'r broses o bleidleisio dros hoff lyfr Cymraeg a hoff lyfr Saesneg. Dosbarthwyd taflenni mewn llyfrgelloedd yn ardal Llanelli⁸; aeth staff llyfrgelloedd lleol ati i hyrwyddo'r digwyddiad ac annog cwsmeriaid i bleidleisio. Ar ôl y lansiad, trefnodd tîm y llyfrgell stondin ar strydoedd siopa canol y dref i ddosbarthu taflenni pleidleisio ac i godi ymwybyddiaeth o'r digwyddiad.

4.6.2 Pleidleisio dros lyfrau ar y rhestr fer

Aethpwyd ati i bleidleisio yn ystod mis Awst a dechrau mis Medi. Yn yr un modd ag yn y Barri, roedd y Grŵp Llywio yn teimlo y byddai amseru'r bleidlais yn well wedi esgor ar well ymateb; serch hynny, cafodd rhyw 600 o bleidleisiau eu bwrw mewn llyfrgelloedd yn Llanelli a'r cyffiniau, ac ar-lein.

Cyhoeddwyd y ddau deitl buddugol, *Coeliwch Neu Beidio* gan Roy Davies a *Before the Last All Clear* gan Ray Evans, mewn digwyddiad yn llyfrgell y dref, ym mhresenoldeb un o Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad. Trefnwyd dau ddigwyddiad gyda'r hwyr, yn dathlu'r naill lyfr a'r llall. Roedd y ddwy noswaith yn cynnwys darlenniadau, ffilmiau byrion ac adloniant cerddorol.

4.7 Effaith a gafwyd yn Llanelli

4.7.1 Ymgysylltu â'r gymuned leol

Nododd Dr Hywel Roberts yn ei Adroddiad Diwedd y Flwyddyn ar gyfer Cyngor Llyfrau Cymru fod 160 o bobl wedi mynychu'r amryw ddigwyddiadau a drefnwyd i ddathlu'r ddau deitl buddugol. Cafwyd ymateb hynod gadarnhaol i'r fenter ymysg y rheiny a fu'n rhan ohoni. Nododd staff llyfrgelloedd yr ardal hefyd fod defnyddwyr yn falch o gael clywed am y llyfrau a chael bod yn rhan o'r broses bleidleisio. Mae tystiolaeth o lyfrgell Llanelli, yn arbennig, yn awgrymu bod yr ymgyrch wedi cael effaith o safbwynt lefelau menthyg llyfrau, gyda chynnydd o 15% rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2008.

*“Yn sicr, roedd y broses o greu rhestr fer wedi esgor ar drafodaethau...
cafwyd trafodaethau brwd yn y llyfrgelloedd.”*

⁸ Roedd y llyfrgelloedd yn cynnwys canghennau Llanelli, Llwynhendy, Porth Tywyn, Llangennech, Hendy, Trimsaran, Pembre, y Tymbl, Crosshands, Pontyberem, Cydweli, Penygroes, Dafen, Felinfoel a Phontiets

4.7.2 Promotion

Bu i ymgyrch Cymuned Llanelli'n Darllen gael ymweliad uchel ei broffil gan y Gweinidog Addysg. Yn ogystal, roedd y sylw a gafwyd yn y wasg (gan gynnwys Radio Cymru, y Llanelli Star ac eraill) wedi helpu i gynnal momentwm a sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hatgoffa yn barhaus am y fenter drwy gydol yr ymgyrch.

Y gobaith oedd y byddai'r blog yn fforwm i aelodau'r gymuned allu rhyngweithio â'i gilydd a thrafod y llyfrau; fodd bynnag, siomedig oedd yr ymateb a gafwyd, heb unrhyw sylwadau yn cael eu gadael ar y blog. Er bod y gymuned yn hapus i fwrw pleidlais ar-lein, ymddengys nad oedd cymaint o apêl i drafodaethau ar-lein am y llyfrau eu hunain.

4.8 Ffactorau a oedd yn allweddol i lwyddiant

Nod yr adran hon yn edrych ar rai o'r ffactorau allweddol a gyfrannodd at lwyddiant y fenter Cymunedau'n Darllen. Pe benderfynir ariannu mentrau Cymunedau'n Darllen yn y dyfodol, dylid rhoi ystyriaeth deilwng i'r materion hyn / eu hadlewyrchu mewn unrhyw gyfarwyddyd a roddir.

4.8.1 Estyn allan drwy lyfrau

Llwyddodd yr ymgyrch Cymunedau'n Darllen i alluogi ac annog gwasanaethau llyfrgell i gysylltu â chynulleidfaoedd newydd – ac yn hyn y mae gwir werth menter Cymunedau'n Darllen, fel y dangoswyd yn y Barri ac yn Llanelli, sef y gallu i gysylltu â grwpiau newydd ac amrywiol yng nghyd-destun gweithgareddau sy'n ymwneud â darllen.

4.8.2 Cyfle i dreialu dulliau arloesol o weithio

Drwy'r cyllid ychwanegol, rhoddwyd cyfle i wasanaethau llyfrgell beilota prosiectau a gweithgareddau newydd. Soniodd nifer o brif lyfrgellwyr y cysylltwyd â hwy yn ystod y gwerthusiad am y cyfyngiadau sydd arnynt o ganlyniad i gyllidebau cyfyng; roedd model y Cymunedau'n Darllen yn fodd i ddau awdurdod arbrofi a threialu dulliau newydd o weithio gyda'r nod o gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

4.8.3 Cefnogaeth gan Gyngor Llyfrau Cymru

Nododd y ddau Grŵp Llywio bwysigrwydd y gefnogaeth a gafwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru a'r cymorth a roddwyd gan y tîm canolog.

“Roedd eu cyswllt rheolaidd a'u parodrwydd i gynnig cyngor yn hollbwysig, yn arbennig gan fod hyn yn dir newydd i ni mewn sawl ffordd.”

Ceir dadl gref y dylid cynnal y gefnogaeth ganolog hon, ynghyd â'r deunyddiau a ddarperir ar lefel debyg, pe bai'r ymgyrch yn parhau.

4.8.4 Strwythur y tîm

Roedd strwythur y pwyllgorau llywio yn wahanol yn y Barri a Llanelli. Y thema gyffredin oedd yr angen i greu timau addas at eu diben a oedd yn y sefyllfa orau i wireddu'r weledigaeth a amlinellwyd. Yn y Barri, roedd ystod y digwyddiadau a drefnwyd yn golygu bod angen dirprwyo'r cyfrifoldeb dros reoli'r gwahanol weithgareddau. Gwnaed hyn yn llwyddiannus, diolch i'r tîm eang â'u hamryfal sgiliau.

Yn Llanelli, penodwyd cydlynnydd lleol i helpu i reoli'r ymgyrch; roedd y dull hwn o weithredu yn addas er mwyn cyflawni'r nod yn Llanelli, gan fod gan y cydlynnydd rwydwaith eang o gysylltiadau lleol a gynigodd cyfleoedd i hyrwyddo'r ymgyrch yn gyflym ac yn effeithlon.

4.8.5 Y broses dendro

Cafwyd ymateb siomedig i'r broses dendro; serch hyn, golygodd hynny fod yn rhaid i wasanaethau llyfrgell dreulio amser yn cynllunio eu hymgyrchoedd, gan ystyried tŷn gyffredinol yr ymgyrch a'r mathau o weithgareddau i'w cynnal.

4.9 Casgliadau: cynaliadwyedd a strategaeth

Mae'n bleser gweld bod y ddwy gymuned wedi ymrwmo i barhau â'r gweithgareddau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgyrch. Yn amlwg, ni fydd y digwyddiadau ar yr un raddfa ag a gafwyd yn 2008, ond cydnabyddir, serch hynny, y dylid cynnal y buddion a gafwyd drwy gyfrwng gweithgareddau o natur debyg. Yn y Barri, mae cynlluniau eisoes ar y gweill i drefnu pleidlais ar lyfrau newydd, gan arwain at 'Ddathliad Darllen Difyr' ar raddfa lai, sef arwydd glir bod gan staff yn y llyfrgell leol a'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gyfanrwydd awydd amlwg i adeiladu ar gyflawniadau 2008. Mae Pwyllgor Llywio Llanelli hefyd yn bwriadu dechrau ymgyrch bleidleisio o'r fath. Nododd y ddau grŵp y byddai wedi bod yn bosibl cael mwy o bobl i gymryd rhan, pe byddent wedi cael mwy o amser i baratoi.

Mater arall sy'n ymwneud â chynaliadwyedd yw p'un a ddylai'r ymgyrch gael ei hariannu ar sail barhaol. Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd a'r effaith a gafwyd, ceir achos cryf dros ddarparu cyfleoedd tebyg i gymunedau eraill. Yn ogystal, mae'r fenter yn cyd-fynd yn glir â'r weledigaeth a nodwyd yn y strategaeth Llyfrgelloedd am Oes, sef gweledigaeth sy'n:

“Annog partneriaethau rhwng gwahanol fathau o lyfrgelloedd a chyrrff y tu allan i'r sector, darparu cyfleusterau modern a buddsoddi i ddatblygu rhagor ar sgiliau'r gweithlu. Yn bennaf oll mae'r rhaglen yn sicrhau bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddinasyddion, gan ymateb i'w hanghenion wrth iddynt newid a chan sicrhau y bydd llyfrgelloedd yn parhau yn lleoedd bywiog a pherthnasol i'r Gymru fodern.”

Mae anawsterau a achoswyd gan ddiffyg amser i baratoi yn thema barhaol yn ystod yr adroddiad gwerthuso hwn. Fodd bynnag, rhaid mynd i'r afael â'r materion hyn os yw'r fenter Cymunedau'n Darllen yn mynd i barhau ac mae'n rhaid dysgu gwersi o brofiadau 2008. Yn ystod y Flwyddyn Darllen, ni aethpwyd ati o ddifrif i gynnal y gweithgareddau tan fis Mai, a phrin iawn o amser oedd rhwng hynny a gwyliau'r haf.

Nid oedd llawer o'r bobl a'r grwpiau yr oedd angen ymgynghori â hwy ar gael yn ystod y cyfnod hwn. Chwe wythnos yn unig oedd ar gael i bleidleisio. Yn ddelfrydol, caniateir cyfnod hirach o amser cyn y bleidlais - oddeutu tri mis o bosibl, er mwyn rhoi cyfle i bobl gael copïau o'r llyfrau sydd ar y rhestr fer, a'u darllen. Ni fu modd cynnal rhai o'r gweithgareddau a gynlluniwyd oherwydd pwysau amser. Roedd Grŵp Llywio'r Gymuned Ddarllen yn y Barri wedi bwriadu cynnal cystadleuaeth celf i ddylunio clawr llyfr a chomisiynu enwogion i hyrwyddo'r llyfrau ar y rhestr fer. Ni chynhaliwyd yr un o'r rhain oherwydd diffyg amser ac arian.

4.10 Ystyriaethau ar gyfer cyflwyno ymgyrch Cymunedau'n Darllen yn y dyfodol

Llwyddodd y ddwy gymuned a ddewiswyd i fod yn Gymunedau Darllen yn 2008 i gyflawni llawer. Er bod achos dros barhau i ariannu ymgyrch debyg ar sail barhaol, dylid ystyried y sylwadau canlynol:

- Mae'r math o gyngor a chefnogaeth ganolog a ddarparwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru yn ystod y Flwyddyn Darllen yn hanfodol.
- Ymddengys ei bod yn synhwyrol i awdurdodau llyfrgelloedd ar lefel leol wneud penderfyniadau am aelodaeth y Grŵp Llywio a'r tîm arweiniol, gan eu bod yn y sefyllfa orau i chwilio am yr aelodau mwyaf priodol a nodi'r rhwydweithiau lleol y mae'n allweddol cysylltu â hwy.
- Dylid diffinio amcanion strategol cliriach er mwyn sicrhau bod Cymunedau Darllen yn cysylltu â strategaethau cenedlaethol presennol neu arfaethedig i hyrwyddo darllen a llythrennedd. Os yw'r rhaglenni hyn yn bwriadu targedu darllenwyr anfoddog neu godi lefelau llythrennedd ymysg grwpiau anodd eu cyrraedd neu grwpiau dan anfantais, dylid nodi hyn o'r dechrau'n deg er mwyn helpu llywio'r gweithgareddau; dylid annog Cymunedau Darllen arfaethedig i ddisgrifio sut y byddant yn mesur effaith eu gweithgareddau.
- Ar ben hyn, mae'n bosibl ei bod o fantais creu canllawiau clir o ran pa gynulleidfaoedd / grwpiau targed y dylai'r cymunedau eu blaenoriaethu; rhaid pwysu a mesur pa mor fuddiol yw ymgyrchoedd sydd dim ond o fudd / yn ymgysylltu ag aelodau'r gymuned sydd eisoes yn ddarllenwyr brwd.
- Bu cysylltiadau rhwng Cymuned Ddarllen y Barri a'r coleg AB lleol yn llwyddiannus; dylai Cymunedau Darllen y dyfodol geisio ffurfioli'r cyswllt ag ysgolion a cholegau, gan sicrhau bod pobl ifanc o amryw grwpiau oedran yn cymryd rhan.
- Dylid parhau â phroses dendro ar gyfer dethol cymunedau cymwys / llwyddiannus. Yn gysylltiedig â hyn, ac er mwyn annog Cymunedau Darllen ym mhob cwr o Gymru, gellid tendro fesul rhanbarth; h.y. un rhanbarth y flwyddyn ar gyfer De Cymru ac un rhanbarth y flwyddyn yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru.
- Mae'n hanfodol cael mwy o amser i baratoi a chynllunio: cynigir bod angen o leiaf 6 mis er mwyn cynllunio'n effeithiol. Cyn hynny, dylid neilltuo deufis ar gyfer y broses dendro: dyma fodel posibl, yn seiliedig ar flwyddyn galendr, gyda'r cyfnod yn dechrau fis Ebrill (E).

Ffigur 5: Amserlen bosibl ar gyfer cynllunio a chyflwyno Cymuned Ddarllen

BLWYDDYN GALENDR 1 Ebrill –Rhagfyr 2009									BLWYDDYN GALENDR 2: Cymuned Ddarllen 2010 yn cael ei phennu am flwyddyn gyfan											
E	M	M	G	A	M	H	T	Rh	I	Ch	M	E	M	M	G	A	M	H	T	Rh
Proses dendro		Proses gynllunio a chydgyssylltu gyda'r tîm cymorth canolog							Cyflwyno gweithgareddau'r rhaglen, gan gynnwys asesu ar ddiwedd y flwyddyn pa effaith a gafwyd											

Erys dwy ystyriaeth arall, sef sawl Cymuned Ddarllen y dylid eu cefnogi bob blwyddyn a pha lefel o gyllid sy'n briodol ar gyfer pob cymuned.

Bydd 1-2 gymuned y flwyddyn yn ei gwneud yn bosibl i ddatblygu arfer da yn gyflym, ac i gael effaith sylweddol dros gyfnod cymharol fyr o amser. Yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn (Adran 6) rydym yn cyfeirio at yr effeithiau nodedig a gafwyd gan wasanaethau llyfrgell eraill o ganlyniad i'r symiau arian cymharol fach a dderbyniasant. (Fel y nodwyd yn gynharach, rhoddwyd £2,000 yr un i'r ugain gwasanaeth llyfrgell nad oedd ganddynt Gymuned Ddarllen yn ystod y Flwyddyn Darllen). Ymddengys felly y byddai'n synhwyrol edrych o'r newydd ar y gyllideb a roddir i bob Cymuned Ddarllen, er mwyn sicrhau bod yr arian yn ei gwneud yn bosibl i wasanaethau llyfrgell ddatblygu arferion arloesol.

ARGYMHELLION

- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu cyllid i gefnogi Cymunedau Darllen yng Nghymru yn flynyddol. Fodd bynnag, byddai unrhyw ymgyrch yn y dyfodol yn elwa ar ddiffinio'r amcanion strategol yn gliriach, cael gwell ganllawiau o safbwynt grwpiau targed a mwy o bwyslais ar yr angen i fesur effaith (gweler y materion a godwyd yn Adran 4.10, uchod).
- Fel rhan o'r canllawiau hyn, dylai unrhyw ymgyrch Cymunedau'n Darllen yn y dyfodol geisio ffurfioli cysylltiadau ag ysgolion a cholegau, gan sicrhau bod pobl ifanc o amryw grwpiau oedran yn cymryd rhan.
- Roedd y gefnogaeth ganolog a ddarparwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru yn rhan allweddol o lwyddiant Cymunedau'n Darllen. Dylid sicrhau bod cefnogaeth debyg ar gael i Gymunedau'n Darllen yn y dyfodol, gan roi cyngor ar ddulliau o gynnal gweithgareddau ac arferion da.
- Dylai APADGOS, mewn cydweithrediad â Sgiliau Sylfaenol Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru, ystyried p'un a ddylid llunio canllawiau i sicrhau bod y fenter yn ategu strategaethau cenedlaethol ehangach i hyrwyddo darllen.
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ail-asesu'r cyllid sydd ei angen ar gyfer pob Cymuned Ddarllen.

5. CLYBIAU 08

5.1 Nodau, amcanion a disgrifiad o'r ymgyrch

Prif nod yr ymgyrch hon yw sefydlu 50 o glybiau darllen ledled Cymru. Er mwyn cyrraedd y nod eang hwn, pennwyd amcanion penodol:

- Byddai pob un o'r clybiau yn cynnwys o leiaf 10 aelod.
- Targedu bechgyn ym mlynnyddoedd olaf addysg gynradd a blynyddoedd cyntaf addysg uwchradd.
- Cynnal cynifer o'r clybiau ag sy'n bosibl y tu allan i amgylchedd ffurfiol yr ysgol.
- Datblygu gweithgareddau darllen o gwmpas themâu chwaraeon.
- Sicrhau cydbwysedd ieithyddol, gyda chlybiau yn gweithredu yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Cynnal o leiaf chwe sesiwn.
- Gweithio i sicrhau bod y clybiau yn parhau ar ôl y Flwyddyn Darllen.

Dychmygwyd y byddai aelodau'r clybiau hyn, a elwir yn Glybiau 08, yn cael cyfle i gyfarfod ag enwogion, ennill gwobrau, cymryd rhan mewn gweithgareddau ac ymweliadau - oll yn gysylltiedig â'r llyfrau y byddent yn eu darllen. Roedd y Flwyddyn Darllen Genedlaethol yn cynnwys is-wefan 08 a roddai'r cyfle i aelodau greu proffil ar-lein ar gyfer eu clwb, cyfrannu at flogiau a mynegi eu barn am y llyfrau y byddent yn eu darllen.

Yn amlwg, roedd nifer o heriau yn gysylltiedig â'r gwaith o sefydlu 50 o glybiau darllen newydd i fechgyn. Gofynnodd Cyngor Llyfrau Cymru i Dafydd a Bethan Whittall fod yn gydlynwyr cenedlaethol ar gyfer yr ymgyrch. Aethant hwy ati i dynnu at ei gilydd dîm o bum cydlynnydd rhanbarthol i fod yn gyfrifol am gysylltu ag ysgolion a grwpiau ieuencid, a'u hannog i ffurfio Clybiau 08. Cynigiwyd cymhelliant i hwyluso'r broses o sefydlu clybiau. Rhoddwyd cyllideb fechan o £100 i bob clwb, gydag aelodau/ arweinwyr y clybiau yn cael dewis sut i wario'r gyllideb. Dosbarthwyd cyfres o anrhegion hefyd yn ystod y fenter, yn rhannol er mwyn gwneud i aelodau'r clybiau deimlo'n arbennig ac yn rhannol i gyfleu neges bod cymryd rhan mewn gweithgareddau darllen – sef rhywbeth yr oedd llawer o aelodau yn anfoddog ei wneud – yn rhywbeth gwobrwyol.

5.2 Sefydlu clybiau

Aeth y cydlynwyr cenedlaethol a rhanbarthol ati i recriwtio aelodau a sefydlu clybiau – a bu'r broses hon yn un llwyddiannus. Er na gychwynnodd y clybiau tan fis Medi 2008, fe sefydlwyd 50 o glybiau ledled Cymru, gyda nifer yr aelodau ym mhob clwb yn uwch na'r targed o 10.

Drwy gyfweiliadau â'r cydlynwyr rhanbarthol, cafwyd ei bod hi wedi bod yn haws o lawer cyrraedd y targed nag a dybiwyd yn wreiddiol. Yn ôl un o'r cydlynwyr

rhanbarthol, fe allai fod wedi recriwtio llawer mwy i'r fenter, gan nodi *“mae'r galw i sefydlu clybiau o'r fath yn parhau mewn ysgolion.”*

Roedd yr ysgolion yn frwd dros y fenter, yn arbennig y rheiny mewn ardaloedd difreintiedig a welodd gyfle i annog bechgyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau darllen gan ddefnyddio dulliau nad oeddent wedi rhoi cynnig arnynt o'r blaen. Siom oedd nodi bod llai o glybiau o lawer yn gysylltiedig â grwpiau ieuenctid megis yr Urdd, clybiau bechgyn, sgowtiaid ac ati nag a obeithiwyd yn y lle cyntaf. Er i'r cydlynwyr rhanbarthol dargedu llawer o sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc y tu allan i leoliadau addysgol ffurfiol, canfuwyd bod gan lawer o'r grwpiau hyn raglenni penodol o weithgareddau ac nid oeddent yn fodlon eu haddasu er mwyn cymhwyso gweithgareddau darllen ychwanegol.

5.3 Trosolwg o'r canfyddiadau ansoddol

Mae'r adran hon yn tynnu ar y dystiolaeth ansoddol a gasglwyd yn ystod trafodaethau ag arweinwyr Clybiau 08 a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y gweithgareddau. Gofynnwyd i drefnwyr y Clybiau 08 lenwi ffurflenni gwerthuso byrion a'u dychwelyd i Gyngor Llyfrau Cymru, yn trafod eu profiadau a'u barn am redeg y clybiau. Mae'r adran hon hefyd yn tynnu ar y sylwadau a ddaeth i law drwy gyfrwng y ffurflenni hyn.

5.3.1 Trefnwyr y clybiau

Roedd trefnwyr / arweinwyr y clybiau yn amrywio'n fawr ar draws yr 50 o glybiau. Mewn rhai achosion, roeddent yn athrawon Cymraeg neu Saesneg, h.y. yn unigolion sydd yn gweithio gyda disgyblion i hyrwyddo llythrennedd fel mater o arfer. Bu ysgolion eraill yn ddigon craff i sylweddoli ei bod yn fanteisiol cael arweinwyr y byddai disgyblion yn llai tebygol o'u cysylltu â gweithgareddau darllen. Mewn achosion eraill, roedd trefnwyr yn athrawon addysg gorfforol, yn athrawon gwyddoniaeth neu'n staff anacademaidd yr ysgol, e.e. llyfrgellwyr. Roedd yn amlwg bod y bechgyn yn gwerthfawrogi natur anffurfiol y trefniadau hyn:

‘Nid oedd yn debyg i wers ddarllen. Roedd yn hamddenol ac roeddem ni i gyd wedi mwynhau - roedd yn teimlo fel egwyl o'r ysgol, er ein bod ni wedi cyfarfod mewn ystafell ddosbarth.’ - Aelod o Glwb 08

5.3.2 Recriwtio aelodau Clybiau 08

Dywedodd llawer o'r trefnwyr eu bod wedi trafod â chydweithwyr ynghylch pwy y dylid eu gwahodd i ymuno â Chlybiau 08 cyn mynd ati i ofyn i'r darpar aelodau. Roedd y rhan fwyaf o drefnwyr wedi mynd ar drywydd darllenwyr anfoddog y byddent yn elwa fwyaf ar gymryd rhan. Mewn rhai achosion, roedd arweinwyr wedi targedu unigolion penodol er mwyn iddynt ddylanwadu ar eraill yn yr ysgol, er enghraifft dewis *“cymysgedd o blant poblogaidd a phlant swil”*.

Mewn ysgolion eraill, fodd bynnag, roedd Clwb 08 ar agor i unrhyw un a oedd am gymryd rhan, ac yn aml roedd mwy o alw am leoedd na nifer y lleoedd a oedd ar gael. Cynigiwyd aelodaeth ar sail 'y cyntaf i'r felin gaiff falu'. Roedd rhyw ddwy ran o

dair o'r clybiau yn grwpiau o fechgyn, yn unol â chanllawiau gwreiddiol y cydlynwyr rhanbarthol a Chyngor Llyfrau Cymru:

“Fe ddewisom ni 10 o fechgyn (yn ôl yr hyn a ofynnwyd i ni, fel y deallom ni) a oedd wedi'u hadnabod fel “darllenwyr anfoddog” (unwaith eto, deallom ni mai dyma ffocws y prosiect)” - Arweinydd Clwb 08

Mae'r ffaith bod llawer o'r clybiau yn rhai cymysg - ac nad oedd rhai, yn ôl pob golwg, wedi targedu darllenwyr anfoddog yn benodol - yn awgrymu y bu camddealltwriaeth neu ddiffyg cyfathrebu ar ryw bwynt yn ystod y broses o sefydlu'r clybiau neu recriwtio aelodau.

'Da' neu 'ardderchog' oedd sut y disgrifiodd bron bob un o'r trefnwyr lefelau presenoldeb yr aelodau yn y clybiau. Mewn rhai achosion, roedd presenoldeb yn orfodol gan ei fod yn gysylltiedig â gwerau yn yr ysgol, ac ymddengys fod hyn hefyd yn mynd yn groes i graen yr amcan gwreiddiol, sef y dylai'r Clybiau gael eu cynnal y tu allan i drefniadau ffurfiol yr ysgol. Ar y cyfan, fodd bynnag, roedd y lefelau da o bresenoldeb yn deillio o lefel uchel o ddiddordeb a chymhelliant, a llwyddwyd i gynnal y rhain drwy gydol yr ymgyrch. Roedd aelodau yn teimlo *“eu bod yn rhan o rywbeth arbennig”*. Nododd aelod un o'r clybiau:

“Roedd yn gyffrous bod yn rhan o'r clwb – roeddwn i'n meddwl i ddechrau y byddai'n debyg i wers ychwanegol, ond nid dyna oedd hi o gwbl. Pan sylweddolodd bechgyn eraill yr ysgol – nad oedden nhw yn y Clwb – ein bod ni'n cael hwyl, roedden nhw eisiau ymuno hefyd.” - Aelod o Glwb 08

5.3.3 Trefniadau

Roedd llawer o'r trefnwyr wedi mynegi eu diolch i Gyngor Llyfrau Cymru, a'u canmol yn eu ffurflenni gwerthuso, gan wneud sylwadau cadarnhaol am y gefnogaeth ragorol a gynigiwyd, yn bennaf drwy gyfrwng y deunyddiau a'r cymhelliant a ddarparwyd.

Cafwyd rhai anawsterau wrth greu amser i'r clybiau o fewn amserlenni ysgolion, gyda'r rhan fwyaf yn eu cynnal yn ystod yr awr ginio gan weithio o gwmpas amserlenni ymarferion côr neu chwaraeon. Mewn rhai ysgolion, roedd hon yn her go iawn, gyda'r trefnwyr yn ei chael yn amhosibl pennu diwrnod lle nad oedd ymarfer rygbi, pêl-droed neu gerddoriaeth yn ystod yr awr ginio. Dywedodd nifer fach o'r trefnwyr y byddai'r Clwb wedi bod yn fwy buddiol pe bai wedi'i gynnal oddi ar dir yr ysgol yn gyfan gwbl, a chan rywun heblaw am athro neu athrawes. Cododd y mater o amseru o fewn y flwyddyn ysgol droeon: roedd cychwyn y clybiau ddechrau tymor yr hydref yn golygu bod yn rhaid i'r holl drefniadau fod yn eu lle erbyn diwedd mis Gorffennaf. Roedd hyn yn creu anawsterau wrth nodi disgyblion Blwyddyn 7 ar gyfer ysgolion uwchradd, gan eu bod, fis Gorffennaf, yn dal i fod yn ddisgyblion ysgol gynradd.

Dywedodd nifer o'r trefnwyr eu bod wedi'i chael yn anodd defnyddio'r wefan i lwytho sylwadau'r aelodau ar y blogiau. Gellir egluro rhai o'r cwynion drwy broblemau cychwynnol ar ddechrau'r prosiect neu'r ffaith bod y trefnwyr eu hunain yn cyfaddef eu bod yn 'decnoffobig'. Fodd bynnag, bydd angen datrys unrhyw broblemau o'r fath

cyn defnyddio gwefan yn y dyfodol. Nododd rhai trefnwyr nad oes llawer o gyfle i aelodau gael mynediad i'r we yn yr ysgol: roedd cyfarfodydd y Clybiau 08 wedi'u gwasgu i awr ginio cyfyng ac os nad oedd modd cael mynediad at y we neu at wefan Y Flwyddyn Darllen yn ystod y cyfnod byr hwn, roedd hyn yn tarfu ar weddill y gweithgareddau a oedd wedi'u trefnu. Cododd trefnwyr eraill bryderon am ddiffyg cyfleuster iddynt olygu'r hyn a ysgrifennwyd ar y wefan, ac am y ffaith mai staff Cyngor Llyfrau Cymru yn unig a allai gael mynediad atynt pe bai angen eu golygu.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oedd y wefan yn nodweddiadol i weithgareddau'r clybiau. Roedd gan aelodau fynediad at ardal aelodau lle gallent greu proffil ac ychwanegu sylwadau at dudalen eu clybiau eu hunain. Roedd y cyfle i gyfrannu at y wefan yn "*gymhelliant mawr i aelodau'r clwb*", gydag un trefnwyr yn nodi y byddai'r grŵp...

"Yn hoffi creu eu gwefan eu hunain neu barhau i ddiweddarau gwefan y clwb er mwyn i'r disgyblion deimlo bod eu barn a'u sylwadau yn bwysig". – Arweinydd Clwb 08

Roedd darllenwyr ifanc hefyd yn rhoi gwerth ar y wefan, a oedd yn ffocws poblogaidd ar gyfer rhai o'r gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r llyfrau. Roedd rhai grwpiau wedi darllen a ffilmio crynodebau o'r llyfrau ac wedi llwytho ffilmiau byrion i wefan y Clybiau 08. Roedd eraill wedi ychwanegu adolygiadau neu sylwadau, gyda rhai ohonynt yn mynegi barn diflewyn ar dafod.

"Roedd y llyfr hwn yn dda i ddechrau ac roeddwn i'n hoffi'r cymeriadau, ond aeth yn fwy diflas wrth iddo fynd yn ei flaen – byddwn i wedi hoffi gweld rhagor o luniau." – aelod o Glwb 08

5.3.4 Gweithgareddau ac anrhegion

Cafodd pob un o'r clybiau £100 yr un i'w wario ar ba weithgareddau bynnag yr oeddent yn dymuno eu cynnal, a dywedodd rhai bod yr arian wedi'i ddefnyddio i gynnal gweithdai gydag awduron ac ymweliadau gan sêr chwaraeon lleol. Roedd teithiau allan o'r ysgol yn arbennig o boblogaidd: ymysg yr enghreifftiau a gafwyd, roedd gweithdy pod-ddarlledu yng nghanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd, roedd rhai clybiau yng Ngogledd Cymru wedi cael ymweliad gan actorion oddi ar raglen deledu 'Rownd a Rownd'. Dywedodd sawl un o'r trefnwyr fodd bynnag mae'r gweithgaredd gorau oedd dod ynghyd i sgwrsio am lyfrau, ac na allent drefnu cymaint o weithgareddau ag yr oeddent wedi'i obeithio oherwydd pwysau amser yn amserlen yr ysgol.

Roedd croeso mawr i'r anrhegion a roddwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru, megis crysau-t a pheli chwaraeon.

'Roedd yr anrhegion yn wych – doeddem ni ddim yn eu disgwyl pan ddaethom ni i ddechrau. Roedd ein ffrindiau y tu allan i'r Clwb yn genfigennus!' – Aelod o Glwb 08

Dyweddod rhai o'r trefnwyr, fodd bynnag, fod yr anrhegion braidd yn anarferol a bod *“yr aelodau yn gwerthfawrogi'r anrhegion a oedd yn ymwneud â chwaraeon, ond doedd y bechgyn ddim yn siŵr sut oedd a wnelo'r anrhegion â'r clwb darllen”*.

5.3.5 Y llyfrau dethol

Ar y cyfan, roedd arweinwyr y Clybiau yn falch bod y llyfrau wedi'u dewis ar eu rhan; yn sicr roeddent yn gwerthfawrogi cael y llyfrau ymlaen llaw, a oedd yn arbed amser ac yn eu galluogi i gynllunio cyn dechrau'r gyfres. Yn ôl un ohonynt:

“Mae gormod o lyfrau i ddewis ohonyn nhw, ac roedd y ffaith bod rhywun arall wedi dewis y llyfrau yn golygu ein bod ni (drefnwyr) yn cael syndod a phleser o'r llyfrau, yn ogystal ag aelodau'r clwb”. – Arweinydd un o'r clybiau

Yn ôl trafodaethau â'r darllenwyr, cafwyd bod y llyfrau, ar y cyfan, yn addas a bod y darllenwyr wedi'u mwynhau. Roedd y bechgyn o'r farn ei bod yn ddefnyddiol cael amrywiaeth o lyfrau a oedd yn apelio at wahanol chwaeth. Aeth y tîm gwerthuso i ymweld ag un clwb, lle'r oedd gan bob aelod ffefryn gwahanol.

“Roedd yn braf cael gwahanol fathau o lyfrau – roedd yn golygu ein bod ni'n darllen llyfrau na fyddem yn eu dewis fel arfer” - Aelod o Glwb 08

Roedd lleiafrif o'r farn y byddai wedi bod yn fwy o gymhelliant i'r darllenwyr gael dewis eu llyfrau eu hunain, gan ei gwneud yn bosibl i aelodau ddewis llyfrau a oedd yn gysylltiedig â'u diddordebau eu hunain. Cafwyd adroddiadau bod rhai o'r llyfrau yn rhy uchelgeisiol i ambell ddarllenwr anfoddog – yn enwedig ymysg y grwpiau yn yr ysgolion cynradd.

5.3.6 Denu darllenwyr newydd

Cafwyd ymateb cadarnhaol i'r clybiau ymysg athrawon, a'u disgrifiodd fel *“syniad ardderchog i ddenu pobl ifanc i ddarllen”*. Roedd y mathau o lyfrau a ddewiswyd a chywair y gweithgareddau, y wefan a'r digwyddiadau, oll wedi helpu i greu delwedd gadarnhaol o ddarllen ac:

“Roedd gweithgareddau fel pod-ddarlledu a chyfweliadau yn y Bae yn wahanol iawn i'r hen ddelwedd bod darllen yn ddiflas ac yn waith caled Roedd y dewis o lyfrau wedi helpu hefyd, gan eu bod yn canolbwyntio ar chwaraeon a dirgelwch, ac roedd hyn yn apelio i'r bechgyn”.

Roedd trefnwyr eraill yn fwy gofalus yn eu hymateb, gan nodi ei bod yn bosibl bod y clybiau, ar y mwyaf, wedi *“gwneud i'r plant feddwl am ddarllen”* ac nad oedd *“y darllenwyr llai abl yn gyfarwydd â darllen o gwbl, ac fe fyddai gofyn cael rhywbeth mwy parhaol gyda mwy o reolaeth/trefn na'r Clybiau 08, i newid hyn”*.

Nid oedd pob clwb yn cynnwys darllenwyr anfoddog, ond yn yr achosion hyn, roedd gan y rheiny a oedd eisoes yn darllen yn rheolaidd gyfle i drafod, ac roedd hyn yn rhywbeth nad oedd bob amser yn bosibl iddynt ei wneud mewn gwersi Cymraeg / Saesneg arferol. Yn hyn o beth, roedd y clybiau yn ymwneud yn bennaf ag *“annog darllenwyr i roi cynnig ar fathau newydd o lyfrau”*.

Dywedodd y trefnwyr bod y clybiau yn fanteisiol i ddarllenwyr newydd a darllenwyr brwd fel ei gilydd.

5.3.7 Cynaliadwyedd

Ar sail gwybodaeth fonitro a ddarparwyd gan arweinwyr y clybiau, bydd y rhan fwyaf o glybiau yn parhau ar ryw ffurf neu'i gilydd y tu hwnt i'r 6 sesiwn wreiddiol. Dywedodd rhai bod yr aelodau eu hunain yn awyddus i barhau i gyfarfod:

“Ydynt, mae'r bechgyn yn awyddus i barhau” ac “Mae'r bechgyn wedi gofyn a allwn ni ymestyn aelodaeth clwb darllen Brightsparx i weddill yr ysgol ac maent yn fodlon rhannu eu profiadau ag aelodau newydd”.

Yn ôl yr adborth a gafwyd gan drefnwyr eraill, mae'n amlwg eu bod wedi'u cymell i feddwl yn greadigol er mwyn parhau â'r clybiau neu sefydlu clybiau newydd:

“Roedd y disgyblion a oedd yn rhan o'r clwb eleni yn gallu mynegi eu barn ac annog disgyblion iau i gymryd rhan mewn clwb tebyg. Mae'n bosibl y gallai'r disgyblion gynnal eu clwb eu hunain yn y dyfodol.”

“Byddwn i'n hoffi ailadrodd y dasg gyda grŵp o ferched a gofyn i swyddogion Blwyddyn 11 i helpu.”

“Rwy'n credu y bydd mwy o glybiau darllen yn cael eu sefydlu ... gan fod llawer mwy o fechgyn wedi gofyn i gael ymuno nag oedd yn y clwb.”

Mewn ysgolion eraill, roedd y diwrnod ysgol prysur yn golygu bod y trefnwyr yn meddwl na fyddai'n debygol y byddai modd iddynt barhau â'r clybiau.

Yn ôl y dystiolaeth o siarad gyda'r bechgyn, ymddengys bod eu diddordeb hwy mewn darllen yn parhau, er bod cyfarfodydd ffurfiol y clwb wedi dod i ben.

‘Mae gen i fwy o ddiddordeb mewn darllen yn gyffredinol bellach – llyfrau Cymraeg yn arbennig. Cyn hyn, fyddwn i fyth wedi darllen llyfrau Cymraeg yn fy amser hamdden ond mae hynny wedi newid nawr, ac rydym yn mynd i ôl llyfrau wrth Mr Thomas [athro Cymraeg] ac yn eu cyfnewid pan fyddwn ni wedi'u gorffen. Rydym ni i gyd yn gobeithio y bydd y clwb yn aildechrau cyn bo hir.’ Aelod o Glwb 08

5.4 Clybiau 08: Gwersi a ddysgwyd

O'r cychwyn cyntaf, y bwriad oedd i'r Clybiau 08 fod yn rhywbeth anffurfiol, yn hwyl, a lle bo hynny'n bosibl, y dylent gyfarfod y tu allan i'r ysgol. Anogwyd y cydlynwyr rhanbarthol felly i gysylltu â sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc – yn ogystal ag ysgolion – i ddwyn perswâd arnynt i ddod yn rhan o'r ymgyrch a sefydlu grŵp darllen i fechgyn. Aeth pob un o'r pum cydlynnydd ati i gysylltu â grwpiau o'r fath, gan gynnwys yr Urdd, grwpiau Sgowtiaid Lleol a chlybiau a chymdeithasau eraill, ond ni chafwyd fawr o lwyddiant. Roedd ymateb grwpiau o'r fath yn siomedig, o'i gymharu â brwdfrydedd yr ysgolion cynradd ac uwchradd, gan gynnwys nifer o

ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig. Pam fod ymateb y grwpiau ieuenctid yn waeth na'r disgwyl felly? Nodwyd dau brif reswm:

1. Mae llawer o grwpiau yn cynllunio rhaglen sefydlog o weithgareddau ac nid oeddent yn fodlon cyflwyno menter neu brosiect newydd yn seiliedig ar ddarllen.
2. Yn gysylltiedig â hyn, cafwyd adborth gan rai o gydlynwyr rhanbarthol y Clybiau 08 nad oedd staff neu swyddogion cyswllt y sefydliadau hyn yn teimlo bod ganddynt yr adnoddau na'r profiad i gynnal gweithgareddau o'r fath.

Canfu'r cydlynwyr rhanbarthol fod ysgolion yn llawer mwy brwd, ac felly drwyddynt hwy y llwyddwyd i recriwtio'r mwyafrif helaeth o Glybiau 08. Mae'n ddiddorol nodi y cafwyd adborth arbennig o gadarnhaol gan glybiau lle nad oedd yr arweinydd yn athro Cymraeg neu Saesneg. Ys dywed Cydlynnydd Cenedlaethol 08, 'nid dyma'r un hen bobl sy'n hyrwyddo llythrennedd mewn ysgolion'. Ymddengys y bu clybiau o'r fath (a hwyluswyd gan athrawon chwaraeon neu ddaearyddiaeth, llyfrgellwyr neu staff gweinyddol) yn arbennig o lwyddiannus wrth greu awyrgylch anffurfiol, er gwaethaf y ffaith bod y clybiau yn cyfarfod yn yr ysgol. Llwyddodd hyn, ynghyd â phwyslais ar ymweliadau y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys ymweliadau uchel eu proffil â chlwb pêl-droed Blackburn Rovers a set rhaglen deledu *Rownd a Rownd*, i chwalu'r ymdeimlad o ffurfioldeb.

Mae nifer gyfyngedig y Clybiau 08 a gafodd eu cynnal y tu allan i'r ysgol yn ei gwneud yn amhosibl gwneud dadansoddiad cadarn o fanteision hynny, o gymharu â chynnal clybiau yn yr ysgol.

Nododd y cydlynwyr rhanbarthol fod llawer mwy o ysgolion wedi mynegi diddordeb mewn sefydlu clybiau, gan awgrymu bod awydd am glybiau o'r fath a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hwy. Os bydd cefnogaeth yn cael ei darparu ar gyfer clybiau darllen i fechgyn yn y dyfodol, rhaid tynnu ar brofiad y Clybiau 08. Lle caiff clybiau eu sefydlu drwy ysgolion, gellid darparu canllawiau ar ffyrdd o gyflwyno clybiau fel profiadau anffurfiol, gan annog gweithgareddau a lleoliadau y tu allan i'r ysgol ac annog staff nad ydynt yn gweithio yn yr adrannau Cymraeg neu Saesneg i fod yn gydlynwyr.

Mae heriau penodol yn gysylltiedig â lleoliadau eraill, yn arbennig o safbwynt llwyddo i berswadio sefydliadau i roi cynnig ar Glybiau 08. Er y dylid canmol y gwaith a wnaed i sefydlu 50 o glybiau darllen i fechgyn, siomedig oedd yr ymateb a gafodd y pum cydlynnydd rhanbarthol wrth geisio sefydlu clybiau y tu allan i'r ysgol. Byddai'n bosibl mynd ati i gynnwys neu geisio cyngor gan sefydliadau sydd â phrofiad penodol o weithio gyda grwpiau ieuenctid mewn lleoliadau anstatudol (e.e. Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, Ieuenctid Cymru, Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc).

Mewn gwirionedd, gellir dod i gasgliad bod angen dau ddull gwahanol o fynd ati i sefydlu clybiau:

- Yn gyntaf, dylid parhau i gefnogi'r gwaith o ennyn diddordeb mewn clybiau darllen i fechgyn mewn ysgolion nad oeddent yn rhan o fenter y Clybiau 08, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd.
- Mae angen cyngor a chefnogaeth arbenigol er mwyn hwyluso'r gwaith o sefydlu clybiau darllen mewn lleoliadau anffurfiol y tu allan i'r ysgol, gan dynnu ar arbenigedd sefydliadau sydd â phrofiad o weithio gyda grwpiau ieuenctid yn y sector anstatudol.

5.5 Effeithiau a ffactorau sy'n allweddol i lwyddiant

i. Tanio dychymyg darllenwyr ifanc

Nododd llawer o'r ysgolion eu bod wedi cael siom ar yr ochr orau o ran pa mor gadarnhaol oedd ymateb y bechgyn i'r clybiau. Roedd tipyn o frwdfrydedd ynghylch bod yn rhan o 'ddigwyddiad gwahanol nad oedd yn wers', ys dywed un o'r cydlynwyr:

'Pan gynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn y llyfrgell, roedd diddordeb mawr ynddo: gallwn i fod wedi cynnal tri chlwb!' – Arweinydd clwb mewn ysgol uwchradd yn Sir Benfro.'

ii. Llwyddo i ddenu darllenwyr newydd

Dengys tystiolaeth fod y clybiau wedi llwyddo i ddenu darllenwyr newydd. Mewn rhai achosion, gwnaed hyn drwy dargedu bechgyn â llai o allu o ddsbarthiadau is. Roedd dewis Cyngor Llyfrau Cymru o deitlau hefyd wedi ychwanegu at allu'r clybiau i apelio at gynulleidfaedd newydd, neu, fel y dywedodd un o'r cydlynwyr:

'Roedd wedi ein helpu ni i symud oddi wrth y ddelwedd draddodiadol o ddarllen fel rhywbeth diflas sy'n waith caled.' - Arweinydd Clwb 08

Roedd llawer o'r bechgyn a fynychodd rhai o'r clybiau yn rhannu'r un farn. Yn ôl un ohonynt:

'Roedd y llyfrau yn canolbwyntio'n bennaf ar chwaraeon neu'n llyfrau dirgelwch – roeddem ni i gyd yn eu mwynhau.' – Aelod o Glwb 08, Caerdydd

Roedd sicrhau bod themâu'r llyfrau dethol yn apelio at y gynulleidfa darged yn allweddol wrth sicrhau llwyddiant. Felly hefyd y dewis blaengar o arweinwyr y clybiau mewn nifer o achosion. Fel y nodwyd yn adran 5.3.1, penderfynodd nifer o glybiau i beidio â gofyn i athrawon Cymraeg neu Saesneg i fod yn gyfrifol am gydgyssylltu gweithgareddau'r clybiau, a thalodd hyn ar ei ganfed:

'Roedd [y Clwb 08] wedi fy ngalluogi i fod yn esiampl i fechgyn, sydd fel arfer yn fy ngweld yng nghyd-destun fy rôl fel athro chwaraeon... fel rhywun sy'n awyddus ac yn frwd dros ddarllen.' - Arweinydd Clwb 08, Wrecsam

iii. Lefelau presenoldeb

Dyweddodd arweinwyr y Clybiau 08 bod lefelau presenoldeb yn dda; roedd y bechgyn yn teimlo'n frwd dros fod yn rhan o glwb dethol, gan fod llawer ohonynt wedi cael gwahoddiad personol i ymuno.

'Cafwyd presenoldeb o 100% gan ein haelodau. Maent yn sylweddoli eu bod yn rhan o rywbeth arbennig ac maent wedi cymryd rhan yn llawn.' – Arweinydd Clwb 08, Conwy

Fel y nodwyd yn adran 5.3.5 uchod, croesawyd yr anrhegion a roddwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru, a heb os nac oni bai, fe gyfrannodd hyn at lefelau presenoldeb yn y clybiau. Yn yr un modd, roedd y cyfleoedd i gyfarfod â sêr y byd chwaraeon, actorion ac i fynd ar ymweliadau y tu allan i'r ysgol wedi chwarae rhan wrth sicrhau bod y bechgyn yn parhau i fynyachu cyfarfodydd y clybiau yn selog.

iv. Llwyddiant wrth ymgysylltu ag athrawon / cydlynwyr y clybiau

Heb yr unigolion hyn, ni fyddai'r clybiau wedi cael eu cynnal. Llwyddodd yr ymgyrch i ymgysylltu â staff ac ymarferwyr, a oedd yn amlwg yn gweld gwerth yn y Clybiau 08: nododd llawer y bu'n 'faint' ac yn 'bleser' cael bod yn rhan o'r ymgyrch.

v. Effeithiau eraill a gafwyd

Recriwtio aelodau newydd i lyfrgelloedd

Roedd un o'r clybiau a drefnwyd drwy wasanaeth llyfrgell Sir Benfro wedi denu aelodau newydd i'r llyfrgell, 'sydd bellach yn menthyg llyfrau'n rheolaidd'.

Diddordeb ehangach mewn darllen ymysg y rheiny nad oeddent yn aelodau o'r clybiau

Dyweddodd tua hanner y grwpiau bod y Clybiau 08 wedi ennyn diddordeb sylweddol mewn darllen ymysg cymheiriaid nad oeddent yn rhan uniongyrchol o'r clybiau. Mewn rhai achosion, arweiniodd hyn at gynlluniau mewn ysgolion i sefydlu clwb darllen blynyddol, gan gynyddu'r nifer sy'n gallu cymryd rhan.

'Rydym yn mawr obeithio y bydd Grŵp 08 eleni yn dangos esiamp! / yn dod yn fentoriaid i grwpiau yn y dyfodol.' - Arweinydd Clwb, Caerdydd

5.6 Cynnal 'Clybiau 08' – Crynodeb o'r opsiynau

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae'r ffaith bod y targed o 50 o glybiau gyda 500 o aelodau wedi'i gyrraedd yn gymharol hawdd, ynghyd â thystiolaeth gan gydlynwyr rhanbarthol sy'n dangos bod yna alw pellach am glybiau darllen tebyg mewn nifer fawr o ysgolion eraill, yn rhoi hwb i'r ddadl dros ddarparu cefnogaeth ychwanegol ar gyfer clybiau tebyg.

Fodd bynnag, gellir mynd ati i wneud hyn mewn sawl gwahanol ffordd ac mae'r adran hon yn cyflwyno trosolwg o'r modelau cyflwyno posibl.

Dewis 1: Model y Flwyddyn Darllen

Mae hyn yn cynnwys parhau â'r model a ddefnyddiwyd yn ystod y Flwyddyn Darllen, gydag ystod lawn o gefnogaeth gan gynnwys cefnogaeth ganolog (y Cyngor Llyfrau), recriwtio clybiau drwy rwydwaith o gydlynwyr rhanbarthol (gan dynnu o bosibl ar arbenigedd ehangach), llyfrau wedi'u dethol gan dîm canolog, sydd hefyd yn darparu copïau o'r llyfrau hyn, ynghyd â chymhelliant amrywiol i annog plant i ddod yn rhan o'r fenter. Bechgyn sy'n ddarllenwyr anfoddog fyddai'r gynulleidfa darged o hyd, a byddai nifer cyfyngedig o aelodau.

Dewis 2: Model ar raddfa lai

Byddai'r model hwn yn cynnwys elfennau o Glybiau 08 ond byddai angen lefel is o gefnogaeth ganolog, gyda Chyngor Llyfrau Cymru yn darparu canllawiau ac astudiaethau achos yn dangos arferion da er mwyn cefnogi clybiau. Mae'n bosibl na fyddai angen y rhwydwaith o gydlynwyr rhanbarthol. Os oes digon o alw ymysg ysgolion i sefydlu clybiau, gallai'r gefnogaeth ganolog farchnata'r cynllun yn uniongyrchol i ysgolion a sefydliadau ieuenctid, ac yna eu hannog i wneud cais i sefydlu Clwb 09. Wrth gwrs, fe fyddai'r buddion ar raddfa lai hefyd, ond byddai'r rhestrau llyfrau a chopïai o'r llyfrau yn cael eu darparu o hyd. Byddai'r clwb yn penderfynu ar y gynulleidfa darged, e.e. gallai ysgolion benderfynu ar ba sail y caniateir aelodaeth o'r clwb a ph'un a ddylid blaenoriaethu grwpiau targed penodol.

Dewis 3: Cysylltu ag ymgyrch Cymunedau'n Darllen

Byddai'r dewis hwn yn golygu cefnogi clybiau darllen mewn ysgolion a sefydliadau ieuenctid ger trefi a ddewisiwyd i fod yn Gymunedau Darllen yn y dyfodol. (Mae hyn yn dibynnu ar y fenter honno yn parhau, wrth gwrs). O reidrwydd felly, byddai'r cwmpas yn fwy cyfyng a byddai'r lleoliad daearyddol yn amrywio o un flwyddyn i'r llall. Byddai'r gefnogaeth ganolog yn canolbwyntio ar sicrhau bod grwpiau lleol yn cael eu sefydlu ac yn ceisio cysylltu gweithgareddau'r clybiau a'r llyfrau a ddarllenir i'r rhaglen ehangach o weithgareddau a drefnir i ddathlu'r ffaith bod yr ardal leol yn Gymuned Ddarllen.

Ffigur 6: Tabl dewisiadau o fodelau Clybiau 08

	Elfennau Cefnogaeth						Cynulleidfa Darged		
	Cefnogaeth Ganolog	Cydlwynwyr Rhanbarthol	chyllideb gyfngedig ar	Ryngweithiol Gwefan	hargymell ddarllen wedi'i	Llyfrau – rhestr darparu copiau	Bechgyn	Darllenwyr Anfoddog	Uchafswm o 10 aelod
Dewis 1: Model y Flwyddyn Darllen	√	√	√	√	√	√	√	√	√
Dewis 2: Model ar raddfa lai	√ ond ar lefel is	X	√ ar lefel is	?	√	√	Yn ôl disgrisiwn y clwb unigol; ysgol / sefydliad ieuencid		
Dewis 3: Cysylltiedig â Chymunedau'n Darllen	√ cysylltiedig â'r ymgyrch Cymunedau'n Darllen	X	√ ar lefel is	√	√	√	I adlewyrchu cynulleidfa oedd targed a strategaeth yr ymgyrch Cymunedau'n Darllen		

5.7 Argymhellion

- Dylid parhau i ddarparu cefnogaeth er mwyn adeiladu ar y diddordeb mewn clybiau darllen i fechgyn mewn ysgolion nad oedd yn rhan o fenter y Clybiau 08, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd.
- Mae angen cyngor a chefnogaeth fwy arbenigol er mwyn hwyluso'r broses o sefydlu clybiau darllen mewn lleoliadau anffurfiol, y tu allan i'r ysgol, gan dynnu ar arbenigedd sefydliadau sydd â phrofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc yn y sector anstatudol.
- Dylid parhau i dargedu bechgyn ym mlynnyddoedd olaf yr ysgol gynradd ac ym mlynnyddoedd cyntaf yr ysgol uwchradd.
- Dylid annog clybiau i gysylltu gweithgareddau darllen â themâu chwaraeon, gan adeiladu ar y dulliau gweithredu llwyddiannus a gyflwynwyd yn ystod Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2008.
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru ystyried cryfderau a gwendidau'r modelau posibl o gefnogi'r Clybiau Darllen.
- Wrth gefnogi'r Clybiau Darllen, mae'n bwysig cynnal cydbwysedd ieithyddol, gyda chlybiau yn gweithredu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

6. GWEITHGAREDDAU'R FLWYDDYN DARLLEN O DAN ARWEINIAD AWDURDODAU LLEOL

6.1 Disgrifiad o weithgareddau a arweinir gan Awdurdodau Lleol

Dechreuodd y cysylltiad ffurfiol ag awdurdodau lleol gyda gohebiaeth gan Gyngor Llyfrau Cymru ar ddechrau'r rhaglen, yn gofyn iddynt enwebu swyddog cyswllt, er nad oedd y cyllid ychwanegol ar gael yr adeg honno. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau rhwng Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru, penderfynwyd cynnig grantiau i bob awdurdod lleol tuag at ddigwyddiadau'r Flwyddyn Darllen. Estynnwyd gwahoddiad i awdurdodau lleol wneud cais am grant o £2,000 (sef cyfraniad o £500 gan y Cyngor Llyfrau a £1500 gan CyMAL). Bwriad y cyllid ychwanegol hwn oedd galluogi pob awdurdod lleol i ymrwymo mewn rhyw ffordd i'r Flwyddyn Darllen ac i gyfrannu at y broses o godi ymwybyddiaeth o'r Flwyddyn Darllen ledled Cymru.

Arweiniwyd y gweithgareddau lleol gan y llyfrgelloedd, ond yn y rhan fwyaf o ardaloedd, cawsant eu llywio gan grŵp o bartneriaid a dynnwyd o adrannau eraill awdurdodau lleol, gan gynnwys addysg (e.e. cynghorwyr y blynyddoedd cynnar, athrawon llythrennedd arbenigol), chwaraeon a hamdden a thai (swyddog Cyfranogiad Tenantiaid), a chan bartneriaid allanol (e.e. y Swyddog Llenyddiaeth a ariannwyd gan yr Academi).

6.2 Digwyddiadau awdurdodau lleol

Cynhaliwyd amryw ddigwyddiadau ledled Cymru o dan faner y Flwyddyn Darllen Genedlaethol. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi defnyddio'r grant i hyrwyddo Her Ddarllen yr Haf, gan ariannu deunyddiau, gweithdai a digwyddiadau adrodd storïau. Ymysg y digwyddiadau ychwanegol mewn rhai awdurdodau lleol roedd gweithdai crefft, sesiynau adrodd barddoniaeth, gemau, cwisiau, diwrnodau i'r teulu, amryw ddigwyddiadau gydag awduron, a nosweithiau agored mewn llyfrgelloedd neu bartïon gyda'r prynhawn. Ar y cyfan, dyluniwyd y gweithgareddau fel eu bod yn apelio at bawb sy'n defnyddio llyfrgelloedd, boed yn ddarllenwyr brwd neu'n ddarllenwyr newydd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar blant a phobl ifanc. Penderfynodd rhai awdurdodau lleol ganolbwyntio ar grwpiau penodol o fewn eu cymunedau lleol:

- Defnyddiodd awdurdod lleol Blaenau Gwent yr arian i godi ymwybyddiaeth o anghenion pobl ddall a rhannol ddall, gan wario'r arian ar raglen o ddigwyddiadau ac ymweliadau awduron wedi'u teilwra'n arbennig, gan gynnwys cynnig trafndiaeth i bobl ddall i'r llyfrgell leol.
- Defnyddiodd llyfrgelloedd Merthyr Tudful dros hanner y grant ar ddeunyddiau hyrwyddo ac offer arddangos. Buddsoddwyd mewn taflenni proffesiynol ar themâu misol ac offer arddangos llyfrau a elwir yn 'book pods'. Cafodd un o'r rhain ei leoli mewn coleg lleol er mwyn darparu taflenni'r llyfrgell ac argymhellion stoc.

- Roedd dau o'r prif ddigwyddiadau yn Sir Ddinbych yn canolbwyntio ar bêl-droed, a'r nod oedd targedu bechgyn a thadau, yn unol â chynulleidfa darged y Flwyddyn Darllen. Hyrwyddwyd y digwyddiadau llawn hwyl i ysgolion lleol a chlwb pêl-droed ieuenctid.
- Defnyddiodd awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf y grant i ddatblygu ac argraffu cyfres o straeon byrion a barddoniaeth a ysgrifennwyd gan bobl leol.

Defnyddiodd awdurdodau lleol y logo yn eang yn ystod y flwyddyn yn y ffyrdd canlynol:

- Ar wefannau nifer o awdurdodau lleol, ar slipiau cyflog staff, ar gylchlythyron mewnol ac ar y rhyngwyd.
- Ar daflenni mewn llyfrgelloedd (e.e. roedd y logo yn ymddangos ar daflen a baratwyd gan Gyngor Gwynedd a gafodd ei ddsbarthu mewn 15,000 o bapurau bro).
- Ar bapurau newydd cymunedol (logo ac erthygl mewn 83,000 o bapurau bro cymunedol a ddsbarthwyd yn Sir Gaerfyrddin).
- Ar daflenni gwybodaeth (yn Sir Benfro, roedd y logo yn ymddangos ar raglen yr hydref yn Theatr y Torch, gyda 30,000 ohonynt yn cael eu hargraffu).

6.3 Nifer y bobl a gymerodd ran yn yr ymgyrch

Yn eu hadroddiadau gwerthuso, nododd llawer o wasanaethau llyfrgell bod cynnydd yn nifer y bobl a oedd yn mynychu digwyddiadau, ynghyd â chynnydd yn nifer y rheiny a oedd yn cofrestru i allu benthyg llyfrau, gan gynnwys plant a phobl ifanc. Cafwyd cynnydd o bron i 5% yn aelodaeth llyfrgelloedd yng Nghasnewydd o gwmpas cyfnod y 'Big Read', sef dathliad cyntaf y Flwyddyn Darllen yn y ddinas. Mewn mannau eraill, anogwyd un bachgen, ac yntau'n 10 mlwydd oed, i ymuno â'i llyfrgell leol yn sgil Fiesta Lyfrau a gynhaliwyd ganol mis Hydref 2008:

'Ffantastig, gwirioneddol wych, llawn hwyl a byddwn i'n dwli cael Fiesta Lyfrau arall y flwyddyn nesaf.' - Aelod llyfrgell newydd, 10 mlwydd oed (Sir Benfro)

Dywedodd un arall, dipyn bach yn hŷn, a ymunodd â'r llyfrgell yn dilyn digwyddiad y Flwyddyn Darllen yng Ngheredigion:

'Mae wedi newid fy nghanfyddiad i o'r llyfrgell.'

Nododd llawer o'r adroddiadau gwerthuso dueddiad cynyddol yn nifer y plant a oedd yn cymryd rhan yn Her Ddarllen yr Haf, ac yn ei chwblhau. Mae'n bosibl bod y digwyddiadau ychwanegol a gynhaliwyd fel rhan o heriau darllen yr haf wedi cyfrannu at y tueddiad hwn:

"Cafwyd presenoldeb cryf (yn y digwyddiadau) a chafwyd adborth hynod gadarnhaol. Mae'n bosibl y bu'r digwyddiad yn ffactor yn y gyfradd uwch o blant a gwblhaodd Her Ddarllen yr Haf (57.6% yn 2008, 53.4 yn 2007 – efallai

ei bod yn ymddangos fel gwahaniaeth bach, ond mewn gwirionedd, golyga hyn gynnydd o 520 o blant yn cystadlu yn yr her)” Adroddiad Gwasanaeth Gwybodaeth a Llyfrgell Sir y Fflint

Roedd nifer sylweddol o bobl wedi mynychu'r amryfal ddigwyddiadau ledled Cymru. Yn ôl yr adroddiad Diwedd Blwyddyn a gomisiynwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru⁹, bu 106,000 o bobl gymryd rhan yn nigwyddiadau'r Flwyddyn Darllen, sef cyfanswm calonogol dros ben.

Mae'n anodd priodoli'r cynnydd mewn niferoedd i'r arian ychwanegol a gafwyd yn sgil y Flwyddyn Darllen, fodd bynnag, gan fod llawer o'r digwyddiadau wedi'u trefnu dan faner y Flwyddyn Darllen ac ymgyrchoedd Llyfrgelloedd am Oes / Dyddiau Da. Ar ben hyn, mae'n bosibl y byddai llawer o'r digwyddiadau wedi digwydd hyd yn oed heb yr arian ychwanegol, gan eu bod yn ailadrodd rhannau o raglen y llynedd.

6.4 Adborth gan y rheiny a fu'n cymryd rhan

Yn ôl yr wybodaeth a ddaeth i law gan benaethiaid y gwasanaethau llyfrgell, boed hynny yn y ffurflenni gwerthuso neu yn ystod cyfweiliadau, canfuwyd lefelau uchel o foddhad â'r digwyddiadau a gynigiwyd, ac yn ôl y farn gyffredinol a fynegwyd, mae digwyddiadau'r Flwyddyn Darllen wedi esgor ar fwy o ddiddordeb mewn darllen, a mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darllen a'r pleser sydd i'w gael wrth ddarllen, a'r cyfleoedd a'r cyfleusterau a gynigir gan lyfrgelloedd. Cipolwg yn unig a ddarperir gan dystiolaeth anecdotaidd o'r fath, ac wrth gwrs, peth peryglus yw cyffredinoli. Fodd bynnag, mae'n amlwg y rhoddwyd gwerth mawr ar y cyllid ychwanegol a ddarparwyd a'r cyfle i hwyluso mwy o ddigwyddiadau a digwyddiadau newydd. Rhoddwyd gwerth hefyd ar y digwyddiadau eu hunain, gyda llawer o bobl yn gwneud sylwadau cadarnhaol ar ffurflenni adborth cwsmeriaid:

“Mae fy mab 7 mlwydd oed yn dwli ar bêl-droed, ond nid yw mor frwd dros ddarllen - ond nawr mae gennym ni lawer o syniadau newydd am ffyrdd gwahanol o ddarllen, fel darllen cylchgronau. Rydym ni'n aelodau o'r llyfrgell ond nid ydym yn dod yma'n aml iawn - byddwn yn dod yma'n amlach o hyn ymlaen gan fod fy mab am gymryd rhan yn yr her ddarllen (adborth rhiant i'r digwyddiad yn Sir Ddinbych)

“Roedd yn ffantastig cael cyfle i gyfarfod ag awdur” (adborth o Gonwy)

“Doeddwn i ddim yn gwybod bod cymaint o bethau mewn llyfrgell” (Adborth gan aelod newydd ym Merthyr Tudful)

Yn ogystal, roedd dystiolaeth bod digwyddiadau lleol wedi'u croesawu gan lawer o fechgyn, sef y gynulleidfa darged ar gyfer nifer o weithgareddau.

“Rydw i'n mynd i ddarllen llyfr Tom nawr – gofynnais i mam adael i fi ymuno â'r llyfrgell er mwyn i fi ei fenthyl” – aelod o dîm pêl-droed bechgyn, yn dilyn

⁹ Hywel Roberts (Ionawr 2009) Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2008: Adroddiad diwedd blwyddyn

Her Ddarllen yr Haf a arweiniwyd gan yr awdur Tom Palmer yn y Rhyl, Sir Ddinbych

“Mae darllen yn sgil pwysig mewn bywyd... bydd yn fy helpu i fynd ymhellach.” - Darllenwr ifanc, yn rhoi adborth mewn digwyddiad Her Ddarllen yr Haf

“Fy hoff beth yn y byd yw pêl-droed, ond rwy'n mynd i ddod i'r llyfrgell nawr i fenthg pethau i'm helpu gyda fy ngwaith ysgol”. - Bachgen o ddarllenwr ifanc

Cafwyd canlyniadau mwy tiriathol hefyd. Un ohonynt, y soniwyd amdano'n fras yn barod, yw'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau mewn llyfrgelloedd a'r cynnydd cysylltiedig yn nifer yr aelodau newydd a'r llyfrau sy'n cael eu benthyg.

- Cynhaliodd awdurdod lleol Casnewydd ystod o ddigwyddiadau, gan arwain at gyfres o ddigwyddiadau 'Big Read' ym mis Hydref. Cododd aelodaeth newydd mewn llyfrgelloedd yng Nghasnewydd o bron i 5% o gwmpas cyfnod y digwyddiad.
- Dengys ystadegau o Sir Fynwy y bu cynnydd yn nifer yr eitemau a ddosbarthwyd a nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd ym mis Hydref a mis Tachwedd o gymharu â'r un cyfnod yn 2007.
- Cafodd un o'r digwyddiadau gydag awduron a drefnwyd yn Abertawe o gwmpas thema dringo ei hyrwyddo i gymdeithas mynydda'r Brifysgol. Ymysg y gynulleidfa yn y digwyddiad roedd 5 myfyriwr, a ymunodd â'r llyfrgell wedi hynny.

6.5 Effeithiau a ffactorau a oedd yn allweddol i lwyddiant

Mae'n bosibl bod y digwyddiadau a gynhaliodd yr awdurdodau lleol mewn llyfrgelloedd, a ariannwyd gan y Flwyddyn Darllen, wedi cael effeithiau eraill:

- Dywedodd awdurdodau lleol eu bod wedi denu benthychwyr newydd, yn enwedig plant, ar ôl digwyddiadau mewn llyfrgelloedd.
- Ceir rhywfaint o dystiolaeth y bu'r arian ychwanegol yn fodd i lyfrgelloedd roi cynnig ar weithgareddau na fyddai wedi bod yn rhan o'u rhaglen arferol, ac felly bu'r symiau cymharol fach o arian yn fodd iddynt feddwl yn greadigol.
- Roedd y gweithgareddau a ariannwyd gan y grant yn cydblethu'n dda â rhaglenni presennol y llyfrgelloedd.
- Roedd y grant, a'r ffaith bod ardaloedd ledled Cymru yn cymryd rhan, yn golygu bod logo a brand y Flwyddyn Darllen i'w weld ym mhob cwr o Gymru.
- Cyfrannodd yr arian ychwanegol at weithio mewn partneriaeth ar lefel leol. Roedd tua hanner yr awdurdodau lleol wedi sefydlu grŵp llywio'r Flwyddyn Darllen a dynnodd ynghyd, mewn rhai achosion, restr amrywiol a sylweddol o bartneriaid. Crëwyd ac atgyfnerthwyd partneriaethau o

ganlyniad i gyflwyno'r gweithgareddau: hyrwyddwyd y digwyddiadau mewn cydweithrediad â chlybiau chwaraeon yn Abertawe a chyhoeddwyd yng Nghastell-nedd Port Talbot; fe'u cynhaliwyd ar y cyd â Gŵyl Fringe Llangollen yn Sir Ddinbych.

- Llwyddodd y grant (a'r ymgyrch ehangach) i alluogi llyfrgelloedd i ennyn cefnogaeth ychwanegol. Er enghraifft yn Abertawe, nododd llyfrgelloedd fod *“nifer o bobl enwog yn y byd chwaraeon wedi dod [i ddigwyddiadau ar thema chwaraeon mewn llyfrgelloedd] i'n cefnogi ni, a hynny'n ddi-dâl; a chafodd Rhondda Cynon Taf, yn ystod y broses o greu antholeg o straeon a barddoniaeth awduron lleol, lythyron o gefnogaeth, gan nodi bod “Pobl wedi rhoi arian i apêl elusen Maer RhCT i gefnogi'r prosiect”*.

Nid oedd yr holl weithgareddau yn llwyddiant ysgubol fodd bynnag, ond nid yw hynny'n annisgwyl wrth beilota mentrau newydd. Dywedodd un awdurdod lleol mai siomedig iawn oedd presenoldeb mewn digwyddiadau gydag awduron, a oedd â'r nod o ddenu darllenwyr newydd, gyda chynulleidfaoedd o bedwar neu bump yn mynychu'r nosweithiau mewn llyfrgelloedd cangen, er gwaethaf cyhoedduswyd da yn y wasg leol. Ar y llaw arall, cafwyd diddordeb sylweddol mewn digwyddiad darllen gydag awduron lleol.

I grynhoi, mae'r llinell rhwng effaith sy'n deillio o gyllid y Flwyddyn Darllen ac effaith sy'n deillio o gyllid o gronfeydd eraill yn aml yn annelwig, ac roedd llawer o'r digwyddiadau a ariannwyd gan y grant yn rhan o raglen llyfrgelloedd am flynyddoedd cyn hynny.

6.6 Cyfraniad at ddigwyddiadau 2008

Yn ystod lansiad y Flwyddyn Darllen, gosododd y Gweinidog Addysg her benodol: trefnu digwyddiadau a gweithgareddau darllen yn ystod y flwyddyn. Cyrhaeddwyd y targed, a rhagori arno, diolch yn bennaf i'r amryw ddigwyddiadau a drefnwyd gan awdurdodau lleol ledled Cymru.

6.7 Plant sy'n Derbyn Gofal

Ochr yn ochr â chyllid y Flwyddyn Darllen a ddyfarnwyd i'r Cyngor Llyfrau i gynnal yr ymgyrchoedd, darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd gyllid ychwanegol i dimau Plant sy'n Derbyn Gofal er mwyn sicrhau bod y plant hynny hefyd yn elwa ar y digwyddiadau hyrwyddo darllen. Darparwyd swm o £5,000 i'r holl awdurdodau lleol, gyda'r bwriad o ddarparu, yn ôl prif swyddog Cynulliad Cymru “cefnogaeth ddwys ledled Cymru”.

Ymysg y gweithgareddau gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal mae digwyddiadau adrodd storïau mewn siopau llyfrau, cymorth i bobl ifanc ddewis a phrynu llyfrau (mewn llawer o achosion am y tro cyntaf erioed) a gweithdai celf a drama, wedi'u hanelu at blant ym Mlwyddyn 6 mewn gofal maeth. Cyflwynwyd tystiolaeth yn ystod cynhadledd y Flwyddyn Darllen a ddangosai fod llawer o'r plant sy'n derbyn gofal a gymerodd ran yn y gweithgareddau wedi gweld cynnydd sylweddol yn eu hoedrannau darllen.

6.8 Ychwanegedd a di-fuddiant

Yn aml, mae gwerthusiadau o raglenni yn rhoi asesiad o ychwaneged, dadleoli a di-fuddiant gweithgareddau. Fodd bynnag, yn achos rhaglen o ddiwyddiadau hyrwyddo fel y Flwyddyn Darllen, mae asesiadau o'r fath yn amhosibl bron. Yn amlwg, byddai rhai o'r diwyddiadau y soniwyd amdanynt yn yr adroddiad hwn wedi digwydd ta beth, ond ni ellir darogan i ba raddau ac i ba gynulleidfa.

Er mwyn asesu gwir ychwaneged net (ac felly effeithiolrwydd) ymgyrch y Flwyddyn Darllen, byddai angen asesu cyfanswm y gweithgareddau darllen yn erbyn i ba raddau y byddai gweithgareddau darllen a hyrwyddo cyffredinol wedi digwydd beth bynnag (sef y lefel o ddi-fuddiant). Mae angen asesu hefyd i ba raddau y mae gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod y Flwyddyn Darllen yn cymryd lle gweithgareddau darllen eraill (sef dadleoli). Dim ond drwy ystyried y ddau ffactor hyn y gall gwerthusiad ddechrau creu darlun clir o i ba raddau y mae'r Flwyddyn Darllen wedi cynyddu nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau darllen. Nid yw'n bosibl, nac ychwaith yn ddymunol, ynysu effeithiau'r Flwyddyn Darllen yn y ffordd hon, gan fod y rhaglen gyfan wedi'i dylunio o'r cychwyn cyntaf i ategu ac adeiladu ar ystod y mentrau eraill sydd ar gael (Stori Sydyn , Darllenwch Filiwn o Eiriau, Llyfrgelloedd am Oes, Dyddiau Da).

7. CASGLIADAU I GLOI A CHRYNODEB O ARGYMHELLION

7.1 Darparu nodau craidd y Flwyddyn Darllen

Mae adran 1.2 yr adroddiad hwn yn amlinellu nodau craidd y Flwyddyn Darllen. Bydd yr adran hon yn tynnu ar y dystiolaeth a gyflwynwyd ym mhenodau cynharach yr adroddiad hwn ac yn ystyried i ba raddau y gwiredwyd y nodau hyn.

Roedd y nod cyntaf yn ymwneud â:

- i. Targedu, fel grŵp blaenoriaeth, plant a phobl ifanc o'r blynyddoedd cynnar hyd at Gyfnod Allweddol 3 (14 mlwydd oed) a rhieni plant ifanc, gyda ffocws penodol ar dadau.

Gyda'i gilydd, roedd y tri phrosiect penodol, ynghyd â gweithgarwch ar lefel awdurdodau lleol, wedi sicrhau gweithgarwch parhaus i blant o'r blynyddoedd cynnar hyd at Gyfnod Allweddol 3. Targedwyd rhai o'r gweithgareddau a drefnwyd gan wasanaethau llyfrgell lleol at blant o dan 5. Roedd awdurdodau eraill wedi trefnu gweithgareddau a oedd yn apelio at blant o bob oed. Un esiampl o weithgarwch o'r fath oedd digwyddiad "Geirie-ie-ie-ie! Wow! Words, Words, Words!" Sir Ceredigion ym mis Tachwedd. Roedd yn cynnwys sesiynau adrodd storïau i blant bach, sesiynau dawnio, sesiynau paentio wyneb, dosbarthiadau drama, sesiynau ysgrifennu a sesiynau adrodd storïau i blant hŷn. Roedd prosiect Clybiau 08 yn ymgais bwriadol i dargedu plant a phobl ifanc yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, a chyrhaeddodd hwn ei darged o ymgysylltu â 500 o ddarllenwyr anfoddog mewn gweithgareddau clybiau darllen. Dylid nodi bod gweithgareddau wedi'u trefnu hefyd ar gyfer grwpiau hŷn – gan gynnwys myfyrwyr y chweched dosbarth, a'r rheiny sy'n astudio mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch mewn rhai achosion – gan ddangos bod y rheiny a elwodd yn ymestyn y tu hwnt i'r grŵp blaenoriaeth gwreiddiol.

Roedd llawer o'r gweithgareddau - gan gynnwys y rheiny a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a rhywfaint o'r rheiny a drefnwyd gan y Cymunedau Darllen - yn canolbwyntio ar gynnwys plant a'u rhieni. Trefnodd nifer o awdurdodau ddigwyddiadau darllen teuluol i hyrwyddo darllen fel profiad i rieni ei rannu gyda'u plant. Wrth nodi faint o bobl a oedd wedi mynychu digwyddiadau o'r fath, nid oedd yr awdurdodau wedi gwahaniaethu rhwng nifer y mamau a nifer y tadau a oedd yn bresennol. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu mai mamau oedd mwyafrif helaeth y rhieni yn y digwyddiadau. Mewn rhai achosion lle y cynhaliwyd gweithgareddau a oedd yn canolbwyntio ar chwaraeon, gwelwyd mwy o ddiddordeb ymysg tadau.

Ar y cyfan, felly, mae'n anodd dod i gasgliad a fu 'ffocws penodol ar dadau' ar draws amrywiol ddigwyddiadau'r Flwyddyn Darllen. Nid yw'r un o adroddiadau gwerthuso'r awdurdodau lleol ar y Flwyddyn Darllen yn cyfeirio at weithgareddau sy'n targedu tadau yn arbennig. Awgryma hyn nad oedd gwasanaethau llyfrgell yn canolbwyntio ar hyn wrth gyflwyno nac wrth adrodd ar weithgareddau, er bod Grŵp Llywio'r Flwyddyn Darllen wedi'i bennu'n flaenoriaeth ar lefel genedlaethol. Ymddengys bod

angen rhoi canllawiau cliriach i awdurdodau lleol a phartneriaid darparu eraill os yw hyn yn aros yn flaenoriaeth mewn rhaglenni hyrwyddo darllen yn y dyfodol.

Nodwyd dau nod allweddol arall yn adran 1.2, sef:

- ii. Pwyslais penodol ar hyrwyddo darllen ymysg bechgyn.

Ymateb Cyngor Llyfrau Cymru i'r ail nod, uchod, oedd dylunio a chyflwyno'r prosiect Clybiau 08. Mae adran 5 o'r adroddiad hwn wedi ystyried canlyniadau'r prosiect hwn. Yn fras, rhaid dod i gasgliad bod y nod hwn wedi'i gyrraedd. Er bod rhai grwpiau yn cynnwys cymysg o fechgyn a merched, roedd hyrwyddo darllen ymysg bechgyn wrth wraidd yr ymgyrch.

- iii. [Canolbwyntio ar] dynnu ynghyd bartneriaid ar lefel leol, gan gynnwys grwpiau'r blynyddoedd cynnar, ysgolion, llyfrgelloedd a grwpiau ieuencid, er mwyn datblygu a chynnal gweithgareddau i hyrwyddo darllen.

Roedd grwpiau llywio lleol a sefydlwyd i gynllunio a darparu gweithgareddau'r Flwyddyn Darllen yn lleol yn cynnig cyfleoedd pwysig i wasanaethau llyfrgell lleol i ymwneud â nifer o wahanol bartneriaid, boed y rheiny ymysg adrannau awdurdodau lleol eraill neu yn bartneriaid allanol. Fel y nodwyd mewn adrannau blaenorol, ni aethpwyd ati i ymgysylltu â phartneriaid yn yr un ffordd ym mhob awdurdod lleol. Roedd amgylchiadau gwahanol (a gwahanol strwythurau corfforaethol mewn awdurdodau lleol) yn golygu bod angen gweithio mewn gwahanol ffyrdd, gan dynnu ar sgiliau allweddol, arbenigedd a chysylltiadau yn ôl yr angen. Fodd bynnag, cafwyd ystod gyfoethog ac amrywiol o bartneriaid lleol yn cymryd rhan: roedd partneriaid awdurdodau lleol yn cynnwys swyddogion a chynghorwyr mewn adrannau sgiliau sylfaenol a llythrennedd, swyddogion chwaraeon a hamdden, swyddogion tai a chyfranogiad tenantiaid, swyddogion ieuencid a chymuned, sefydliadau gwasanaethau ieuencid, gofalwyr i bobl hŷn, swyddogion celfyddydau, swyddogion hyrwyddo iechyd a llawer mwy; ceir hefyd restr hirfaith o bartneriaid eraill a oedd yn rhan o'r gwaith o gynllunio a chyflwyno gweithgareddau lleol, gan gynnwys athrawon, rheolwyr theatrau, clybiau ffermwyr ifanc ac unigolion yn cynrychioli ystod o sefydliadau lleol eraill.

Roedd y pwyslais ar weithgareddau lleol, a gynlluniwyd ac a ddarparwyd gan y rheiny sydd agosaf at y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn llwyddiant ysgubol, nid leiaf oherwydd effeithiolrwydd rhwydweithio lleol a'r gwerth ychwanegol a gafwyd drwy ddwyn ynghyd sgiliau ac arbenigedd o ystod o wahanol leoliadau i gefnogi'r digwyddiadau.

7.2 Effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd

Mae'n glir bod y Flwyddyn Darllen wedi bod yn effeithiol, o safbwynt bod y Cyngor Llyfrau wedi cyrraedd yr holl dargedau a bennwyd ar gyfer niferoedd ac aelodaeth y Clybiau 08 a digwyddiadau 2008. Wrth benderfynu ar gost-effeithiolrwydd, fodd bynnag, mae angen ystyried ystod o ffactorau eraill hefyd. Mae cost-effeithiolrwydd unrhyw raglen yn dibynnu ar yr effeithiau a'r canlyniadau a gafwyd, yn erbyn yr adnoddau a gafodd eu buddsoddi, gan ystyried y canlyniadau a fwriadwyd (y

targedau a gyrhaeddwyd) a'r buddion ehangach a gafwyd. Yn achos Blwyddyn Darllen 2008, mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y gwerthusiad yn dangos bod y canlyniadau ychwanegol canlynol hefyd yn cyfrannu at werth am arian.

- Ymwybyddiaeth eang o'r Flwyddyn Darllen.
- Cyfle i roi prawf ar ffyrdd newydd o weithio.
- Datblygu a lledaenu arferion da.
- Creu partneriaethau newydd.
- Deunyddiau newydd ar gael i brosiectau yn y dyfodol.

Cafodd y rhaglen gyllid o £458,000. Yn ôl brasamcanion Dr Hywel Roberts¹⁰ roedd rhyw 106,000 o unigolion wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Flwyddyn Darllen. Os caiff cost-ffeithiolrwydd y rhaglen ei hasesu yn nhermau simplistig iawn y ffigurau sylfaenol, yna'r gost oedd £4.32 y pen i bob buddiolwr.

Fodd bynnag, rhaid i unrhyw ddadansoddiad o gost-ffeithiolrwydd ystyried amryfal ffactorau eraill, gan gynnwys:

- **Ymwybyddiaeth eang o'r Flwyddyn Darllen** – Ni ddylid mesur cost y pen yn ôl y niferoedd a fynychodd digwyddiadau'r Flwyddyn Darllen yn unig. Bydd llawer mwy o bobl wedi clywed eitemau hyrwyddo ar y radio, wedi darllen erthyglau fel rhan o ymgyrchoedd cyfryngau, wedi cymryd rhan drwy rinwedd eu rôl fel rhieni aelodau'r Clybiau 08, neu wedi sylwi ar arddangosfa hyrwyddo mewn siop llyfrau.
- **Treialu ffyrdd newydd o weithio** - Roedd y Flwyddyn Darllen yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o flwyddyn darllen 1998 a digwyddiadau Llyfr y Flwyddyn. Mae Cymunedau'n Darllen wedi bod yn llwyddiannus yn America ac mae fersiynau ar raddfa lai wedi gweithio yn y DU; roedd y Flwyddyn Darllen yn gyfle i gynnal Cymunedau'n Darllen penodol mewn dwy ardal yng Nghymru. Yn yr un modd, dechreuodd yr arfer o roi llyfrau'n anrhegion yn Sbaen, ond yn 2008 roedd cyfle i ddatblygu'r syniad fel rhan ganolog o waith hyrwyddo a chysylltiadau cyhoeddus y Flwyddyn Darllen, Yn ystod y broses, cafwyd cyfle i dreialu a phrofi. Ar lefel y prosiect, er bod llyfrgelloedd wedi trefnu gweithgareddau i gyd-fynd â'r rhaglen bresennol o weithgareddau ar gyfer Dyddiau Da, ceir tystiolaeth hefyd eu bod wedi rhoi cynnig ar weithgareddau newydd, a thrwy hynny, wedi meithrin partneriaethau newydd. Ar lefel ganolog, roedd staff y Cyngor Llyfrau wedi dysgu ffyrdd newydd o weithio, er enghraifft comisiynu a diweddarau gwefannau prosiectau, a fydd yn llywio ac yn cyfoethogi prosiectau eraill, yn enwedig Diwrnod y Llyfr.
- **Datblygu a lledaenu arferion gorau** – roedd y rhaglen wedi datblygu a threialu ffyrdd newydd o weithio, a hynny ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol fel ei gilydd. Felly, rhaid i unrhyw fesur o gost-ffeithiolrwydd ystyried y cyfle i rannu syniadau a gwersi - nid yn unig â mentrau eraill Cyngor Llyfrau Cymru, ond hefyd â gweithgareddau partneriaethau strategol eraill

¹⁰ Adroddiad diwedd blwyddyn Hywel Roberts (Ionawr 2009)

(Estyn, Sgiliau Sylfaenol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru), ac â gweithgareddau partneriaid darparu (ysgolion, llyfrgelloedd) a phartneriaid newydd (TUC, elusennau, cydlynwyr Plant Dan Ofal ac ati).

- **Partneriaethau newydd** - Ar lefel genedlaethol, datblygodd Cyngor Llyfrau Cymru berthnasau gweithio newydd yn ystod y flwyddyn, yn arbennig gyda'r TUC; bydd y cysylltiadau hyn yn cael eu hatgyfnerthu wrth iddynt weithio i hyrwyddo Stori Sydyn. Ar lefel leol hefyd, cafwyd tystiolaeth ym mhob un o'r tair ymgyrch o berthnasau gweithio agosach rhwng partneriaid, gydag ysgolion yn creu cysylltiadau â chlybiau chwaraeon i drefnu ymweliadau Clybiau 08 a'r Cymunedau Darllen yn gweithio gydag ystod o gysylltiadau lleol.
- **Deunyddiau newydd** – Gwnaed buddsoddiad sylweddol i ddatblygu gwefan y prosiect ac fe adlewyrchwyd hyn yn y dyluniad deniadol a hawdd-mynd-ati a'r pwyslais ar sicrhau bod darllen yn hwyl. Dylid cymeradwyo'r pwyslais a roddwyd ar sicrhau bod y wefan yn rhyngweithiol, er mai bach iawn o'r cyhoedd a wnaeth sylwadau ar y blogiau. Yn yr un modd, roedd y cyfle i flogio ar y wefan yn nodwedd allweddol ar gyfer llawer o aelodau'r Clybiau 08, er gwaethaf rhai o'r problemau technegol a gafwyd ac amharodrwydd rhai grwpiau i'w ddefnyddio. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod y gwerthusiad yn dangos bod y wefan ar ei mwyaf defnyddiol pan oedd yn targedu cynulleidfa benodol, ac wedi'i dylunio i apelio at y gynulleidfa honno, fel yn achos is-wefan y Clybiau 08. Bydd rhannau sylweddol o'r wefan yn cael eu hymgorffori i wefan Cyngor Llyfrau Cymru ar gyfer y dyfodol.

Mae'r 'cost fesul buddiolwr' isel felly yn cynnwys mwy na nifer y bobl a ddaeth i'r gweithgareddau ac mae'n glir na ellir mesur y cynllun ar y sail ariannol hon yn unig. Bydd gwir werth y Flwyddyn Darllen yn amlygu'i hun yng nghynaliadwyedd ei chanlyniadau, cynaliadwyedd y prosiectau newydd a'r brwdfrydedd a grëir; a chynnydd yn y diddordeb mewn darllen ymysg aelodau Clybiau 08, y rheiny a bleidleisiodd ac a fynychodd digwyddiadau'r Gymuned Ddarllen a'r rheiny a gafodd lyfrau yn anrhegion hefyd.

7.3 Argymhellion

- i. Dylid parhau â'r Wythnos Llyfr yn Anrheg, neu ymgyrch debyg, fel rhan o ddiwrnod y Llyfr bob blwyddyn.
- ii. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru, bennu graddfa a ffocws y gweithgarwch o hyrwyddo ymgyrch o'r fath a dylid sicrhau bod cyllid ar gael i adlewyrchu hyn.
- iii. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu cyllid i gefnogi Cymunedau'n Darllen yng Nghymru bob blwyddyn. Fodd bynnag, byddai unrhyw ymgyrch yn y dyfodol yn elwa ar ddiffinio'r amcanion strategol yn well, cael canllawiau ar grwpiau targed a rhoi mwy o bwyslais ar yr angen i fesur effaith (gweler y materion a godwyd yn Adran 4.10, uchod).
- iv. Fel rhan o'r canllawiau hyn, dylai Cymunedau Darllen y dyfodol geisio ffurfioli'r cyswllt ag ysgolion a cholegau, gan sicrhau bod pobl ifanc o amryw grwpiau oedran yn cymryd rhan.

- v. Roedd y gefnogaeth ganolog a ddarparwyd gan Gyngor Llyfrau Cymru yn rhan allweddol o lwyddiant Cymunedau'n Darllen. Dylid sicrhau bod cefnogaeth debyg ar gael i Gymunedau Darllen y dyfodol, gan roi cyngor ar ddulliau o gynnal gweithgareddau ac arferion da.
- vi. Dylai APADGOS, mewn cydweithrediad â Sgiliau Sylfaenol Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru, ystyried p'un a ddylid llunio canllawiau i sicrhau bod y fenter yn ategu strategaethau cenedlaethol ehangach i hyrwyddo darllen.
- vii. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ail-asesu'r cyllid sydd ei angen ar gyfer pob Cymuned Ddarllen.
- viii. Dylid parhau i ddarparu cefnogaeth er mwyn adeiladu ar y diddordeb mewn clybiau darllen i fechgyn a nodwyd mewn ysgolion nad oedd yn rhan o fenter y Clybiau 08, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd.
- ix. Mae angen cyngor a chefnogaeth fwy arbenigol er mwyn hwyluso'r broses o sefydlu clybiau darllen mewn lleoliadau anffurfiol, y tu allan i'r ysgol, gan dynnu ar arbenigedd sefydliadau sydd â phrofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc yn y sector anstatudol.
- x. Dylid parhau i dargedu bechgyn ym mlynnyddoedd olaf yr ysgol gynradd ac ym mlynnyddoedd cyntaf yr ysgol uwchradd.
- xi. Dylid annog clybiau i gysylltu gweithgareddau darllen â themâu chwaraeon, gan adeiladu ar y dulliau gweithredu llwyddiannus a gyflwynwyd yn ystod Blwyddyn Darllen Genedlaethol 2008.
- xii. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Llyfrau Cymru ystyried cryfderau a gwendidau'r modelau posibl o gefnogi Clybiau Darllen.
- xiii. Wrth gefnogi'r Clybiau Darllen, mae'n bwysig cynnal cydbwysedd ieithyddol, gyda chlybiau yn gweithredu yn Gymraeg ac yn Saesneg.